

“Ydyn ni yno eto?”

Ein Hawliau Ni, Ein Llais Ni

Adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Rhagfyr 2020

Children's
COMMISSIONER



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

NICCY
PROMOTING THE RIGHTS OF
CHILDREN & YOUNG PEOPLE

**CHILDREN &
YOUNG PEOPLE'S**
Commissioner
Scotland

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Mesurau gweithredu cyffredinol.....	5
Egwyddorion cyffredinol	9
Hawliau a rhyddid sifil.....	13
Trais yn erbyn plant	16
Amgylchedd y teulu a gofal amgen	23
Anabledd, iechyd sylfaenol a lles.....	32
Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol	42
Mesurau amddiffyn arbennig.....	55
Brexit	62
Atodiad 1: Trosolwg Ymgysylltu	64

Cyflwyniad

Bu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn adolygu cynnydd y Deyrnas Unedig ddiwethaf yn 2016, a bydd yn gwneud hynny eto yn 2021. Mae'r adroddiad yma'n cael ei seilio ar ymgysylltiad staff Cyfranogiad yn swyddfeydd pedwar Comisiynydd Plant y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban) â phlant a phobl ifanc. Ei nod yw cyflwyno i'r Pwyllgor leisiau plant a phobl ifanc ynghylch eu profiadau o ran derbyn eu hawliau o ddydd i ddydd. Y prif amcan yw dylanwadu ar restr materion Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn cyn adroddiad y Deyrnas Unedig (LOIPR). Bydd y pedwar Comisiynydd yn cyflwyno adroddiad ategol ar wahân, yn asesu sut mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi symud tuag at roi i bob plentyn y cyfleoedd a'r amddiffyniadau sydd wedi'u crisialu yn CCUHP.

Er bod llawer o heriau a rhwystrau yn dal i wynebu plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw ac ar eu rhan, er mwyn cyflawni a gwireddu eu hawliau, cydnabyddir bod llawer o bethau'n mynd yn dda ym mhob un o'r pedair gwlad, ac amlygir enghreifftiau o hynny isod:

Lloegr

Yn ystod pandemig COVID rydyn ni wedi gweld newid ffocws i'w groesawu at anghenion plant agored i niwed, gan gydnabod pwysigrwydd cadw'r ysgolion ar agor i hybu llesiant plant, eu diogelu rhag niwed ac atal y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion rhag ehangu. Cyn y pandemig, bu rhai datblygiadau cadarnhaol hefyd. Mae mwy o arian wedi cael ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, ac mae cynlluniau ar waith i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn yr ysgolion. Mae cynigion i gyflwyno canllawiau newydd fydd yn cefnogi teuluoedd ac yn cynnal hawliau plant wrth iddyn nhw gael eu haddysgu gartref, canllawiau newydd ar leihau ataliaeth mewn ysgolion arbennig yn Lloegr a chynlluniau ar gyfer deddfwriaeth i amddiffyn plant rhag cael niwed ar-lein. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno Addysg Perthnasoedd Iach a Rhyw a chyflwyno deddfwriaeth sy'n cydnabod effaith Cam-drin Domestig ar blant. Ar ben hynny, mae'r Adran Addysg wedi datblygu templed ar gyfer Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant, ac mae sefydliadau yn sicrhau fwyfwy bod ganddyn nhw baneli plant er mwyn gwneud yn siŵr bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan yr effaith ar blant. Fodd bynnag, mae angen o hyd i ni weld y cynnydd yma mewn perthynas â'r heriau parhaus rydyn ni'n eu hwynebu ar hyn o bryd a'r newidiadau sy'n angenrheidiol mewn gwirionedd i wella bywydau plant ar hyn o bryd, er enghraifft, newid i'r bwlch gwariant mawr rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion.

Gogledd Iwerddon

Mae Deddf Cydweithrediad Gwasanaethau Plant (Gogledd Iwerddon) yn ddatblygiad deddfwriaethol arwyddocaol sy'n ceisio gwella llesiant plant a phobl ifanc mewn modd sy'n gwireddu eu hawliau. Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth statudol ar y Llywodraeth i fabwysiadu Strategaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae hyn yn cyd-fynd â [Sylw Cyffredinol Rhif 5 y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn ynghylch Mesurau Gweithredu Cyffredinol CCUHP](#) sy'n rhoi Partïon Gwladol dan rwymedigaeth i gynhyrchu 'cynllun gweithredu cenedlaethol i blant'. Mae'n gosod rhwymedigaethau pellach ar Adrannau / Asiantaethau i gydweithredu â'i gilydd er mwyn cyfrannu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Ar ben hynny, croesawir y cyhoeddiad diweddar gan Gomisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon fod Cynulliad Ieuentid i Ogledd Iwerddon¹ yn cael ei sefydlu, gan y bydd hynny'n gam ychwanegol ymlaen ar gyfer hawliau plant a phobl ifanc.

¹<http://www.niassembly.gov.uk/visit-and-learning/youth-assembly-2020/>

Yr Alban

Yn dilyn blynyddoedd lawer o ymgyrchu gan blant a phobl ifanc, cymdeithas sifil, a Chomisiynwyr Plant, disgwylir mai'r Alban fydd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ymgorffori Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn uniongyrchol i gyfraith gwlad. Cyflwynwyd Bil Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (Ymgorffori)(Yr Alban) i Senedd yr Alban ar 1 Medi 2020.² Mae'r bil yn cael ei gefnogi ar draws y pleidiau, ac mae i gael ei gwblhau erbyn dechrau 2021. Yn 2019, pasiodd Senedd yr Alban gyfreithiau i atal cosb gorfforol i blant, a fydd yn dod i rym ym mis Tachwedd 2020³, ac i godi oed cyfrifoldeb troseddol o 8 i 12, er nad yw hynny wedi dod i rym yn llawn eto.⁴

Cymru

Bydd Deddf Plant (Cymru) 2020 yn helpu i ddiogelu hawliau plant pan ddaw'n gyfraith yn 2022 trwy wahardd cosb gorfforol i blant. Bellach mae Senedd Ieuenctid yng Nghymru sy'n cael ei hariannu a'i gwreiddio yn Senedd Cymru. Mae fframwaith statudol ar gyfer dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant yn destun ymgynghori ac mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno yn 2021. Os caiff ei basio, bydd y Bil Cwricwlwm ac Asesu yn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Er gwaethaf yr uchod, mae llawer o gyfyngiadau wrth gefnogi plant a phobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig i gyflawni eu potensial llawn, ac mae'r ddogfen hon yn ceisio defnyddio llais plant a phobl ifanc i amlygu'r cyfyngiadau hyn a sicrhau bod mwy yn cael ei wneud yn eu cylch. Roedd tir cyffredin ar draws y pedair gwlad yn achos llawer o faterion ar draws yr adroddiad. Lle mae materion yn benodol i un wlad, nodir hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei ysgrifennu yng nghanol pandemig Covid – mae hanesion a phrofiadau'r plant a'r bobl ifanc wedi'u gosod yn erbyn cefndir o ansicrwydd cymdeithasol, addysgol, gwleidyddol ac economaidd. Mewn cyd-destun cyfranogol mae Covid-19 wedi creu llawer o rwystrau i arferion cyfranogiad rheolaidd trwy effeithio ar allu pobl ifanc i deithio, cwrdd, cymdeithasu a dod at ei gilydd ac ymgysylltu'n gyffredinol â'u cyfoedion neu weithwyr allweddol. Mae ymgysylltu ar-lein, o bell, wedi caniatáu i hyn ddigwydd i ryw raddau er gwaethaf problemau ynghylch mynediad i'r rhyngwrwyd ac argaeledd cyfrifiaduron a dyfeisiau symudol.

Trosolwg o Ymgysylltu

Er gwaethaf Covid, bu timau'r Comisiynwyr yn estyn allan ac yn gwneud pob ymdrech i glywed a gwrandao ar lais pobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys arolygon, ymweliadau rhithwir â charcharau, grwpiau ieuenctid a chartrefi plant, ac ymgysylltu o bell trwy bartneriaethau â chyrff anllywodraethol rhanbarthol / lleol, yn arbennig o ran grwpiau o bobl ifanc mewn sefyllfa fregus. Gwnaed hyn ar y rhagdybiaeth bod gan asiantaethau fecanwaith eisoes ar gyfer ymgysylltu â'u pobl ifanc. Bu rhai asiantaethau yn hwyluso sgwrs ar ran y Comisiynwyr, tra bod eraill wedi gwahodd staff y Comisiwn i'w cyfarfodydd.

²<https://beta.parliament.scot/-/media/files/legislation/bills/current-bills/united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-incorporation-scotland-bill/introduced/bill-as-introduced-united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-scotland-bill.pdf>

³ Children (Equal Protection from Assault) (Scotland) Act 2019
<https://www.legislation.gov.uk/asp/2019/16/enacted>

⁴ Age of Criminal Responsibility (Scotland) Act 2019 <https://www.legislation.gov.uk/asp/2019/7/contents/enacted>

Methodoleg Ymgysylltu

Er bod pob Swyddfa yn gyfrifol am eu gwaith ymgysylltu eu hun, mae'r timau wedi cefnogi ei gilydd trwy rannu adnoddau, h.y. canllawiau gweithdai a holiaduron. Cefnogwyd hyn gan gyswllt parhaus ymhlith a rhwng Swyddfeydd.

Bu'r staff yn hwyluso trafodaethau ar-lein gyda phlant a phobl ifanc, a lle nad oedd modd hwyluso hynny, gofynnwyd i asiantaethau partner hwyluso hyn ar ran y Comisiynwyr⁵. Lle nad oedd hynny'n bosibl, cafwyd hyd i ymgynghoriadau, adroddiadau a chyhoeddiadau lleol i lenwi'r bylchau a nodwyd yn yr wybodaeth. Roedd rhai o'r ffynonellau hyn yn deillio o Swyddfeydd y Comisiynwyr, ac eraill yn dod o gyrff anllywodraethol rhanbarthol a chenedlaethol a ffynonellau academiaidd.

Mae *Atodiad 1* yn rhoi trosolwg ychwanegol o ymgysylltiad pob Gwlad â phlant a phobl ifanc. Ceir cyfeiriadau at wybodaeth ategol o adroddiadau etc ar hyd yr adroddiad.

⁵ Yn unol ag arfer da, os oedd plant yn codi unrhyw bryderon diogelu yn ystod yr ymgynghori, roedd camau priodol yn cael eu cymryd.

Mesurau gweithredu cyffredinol

Ymgorffori CCUHP

Ar 1 Medi 2020, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Fil Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Ymgorffori)(Yr Alban).⁶ Bwriad y bil hwn yw cyflawni'r ymrwymiad i ymgorffori CCUHP "yn llawn ac yn uniongyrchol" yng nghyfraith yr Alban, hyd eithaf pwerau Senedd yr Alban, fel ei fod yn cael ei basio cyn diwedd tymor cyfredol y senedd.⁷ Mae gan Gymru beth ymgorffori yn yr ystyr bod gan Weinidogion ddyletswydd 'sylw dyledus' i CCUHP. Fodd bynnag, hyd nes bod pob un o'r pedair gwlad yn cadarnhau ymgorffori llawn yn ffurfiol ac yn ddeddfwriaethol, mae llawer o rwystrau sy'n atal plant a phobl ifanc rhag derbyn eu hawliau. Mae plant yn dweud wrthyn ni eu bod nhw'n teimlo bod rhywun yn gwrando pan fydd oedolion yn gweithredu ar beth mae'r plentyn wedi dweud wrthyn nhw. Yn yr un modd, roedd plant eisiau i oedolion esbonio wrthyn nhw pam roedd rhywbeth yn neu ddim yn digwydd, ac ymateb y naill ffordd neu'r llall⁸.

“

Eu hymateb a dweud y gwir, beth maen nhw'n gwneud am y peth. Os bydda i'n gofyn am rywbeth sydd i wneud â'm dyfodol, bydda i'n gwybod eu bod nhw wedi gwrando os byddan nhw'n ceisio gwneud rhywbeth amdano fe, ond os rhoddan nhw'r peth o'r naill ochr, fwy na thebyg maen nhw'n meddwl, 'O, plant yn nhw, dydyn nhw ddim yn gwybod am beth maen nhw'n siarad.

- Person ifanc, Lloegr

”

Mae llawer o bobl ifanc yn credu nad yw CCUHP yn cael ei gydnabod na'i ddeall yn eang ar draws eu grŵp cyfoedion, yn arbennig y rhai sydd ddim yn ymwneud â sefydliadau pobl ifanc. Maen nhw'n galw am wneud mwy o waith trwy'r cwricwlwm i gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a datblygu gwell dealltwriaeth o'r hawliau gan bob person ifanc. Maen nhw eisiau bod yn gyfartal, cael eu cynnwys, cael gwrandawriad a chael eu gwerthfawrogi. Maen nhw eisiau cael hawliau sy'n gyfartal â phlant a phobl ifanc ar draws y byd.⁹

“

Nid pawb sy'n gwybod am CCUHP. I wella hyn dylen nhw ddweud wrth fwy o bobl amdano fe a threfnu gwasanaethau arbennig am CCUHP mewn ysgolion.

- Person ifanc, Children in Scotland

”

Mae gan blant a phobl ifanc brofiadau cymysg o ddysgu am CCUHP yn yr ysgol. Tra bod rhai plant yn sôn am brofiadau cadarnhaol o ddysgu am hawliau, lle mae awdurdodau lleol ac ysgolion unigol yn gwreiddio CCUHP mewn gwersi ac yn defnyddio dull ysgol gyfan o ymdrin â Hawliau Plant gan ddefnyddio'r Ffordd Gywir¹⁰ neu RRSa UNICEF¹¹, mae pobl ifanc eraill yn dweud eu bod heb gael fawr ddim profiad, os o gwbl, o ddysgu am hawliau mewn ysgolion.

⁶<https://beta.parliament.scot/-/media/files/legislation/bills/current-bills/united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-incorporation-scotland-bill/introduced/bill-as-introduced-united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-scotland-bill.pdf>

⁷ <https://cypcs.org.uk/incorporation/>

⁸ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/03/cco-childhood-in-2020.pdf>

⁹ <https://www.youthlinkscotland.org/media/3802/young-peoples-response-to-consultation-on-uncrc-incorporation-facilitated.pdf>

¹⁰ <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/05/The-Right-Way-Education.pdf>

¹¹ <https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/>

“

Dylai fod mwy o ymwybyddiaeth o hawliau plant fel bod pobl ifanc yn gallu gwybod ydyn nhw'n cael eu hamddifadu o'u hawliau, dylid dilyn ymlaen gyda'r hawliau ym mywyd y cartref, ac integreiddio mwy o hawliau ym mywyd yr ysgol.¹²

”

- Person ifanc, Llysgennad Myfyrwyr, Cymru

“

Dylai mwy o bobl fod yn ymwybodol o'u hawliau a dylai mwy gael ei wneud i gael mynediad i'ch hawliau a sierhau bod gennych chi fynediad i'r hawliau yma. Wrth ddysgu am hawliau yn yr ysgol, dylai fod yn fwy manwl, ac yn cael ei gyflwyno'n well i blant a phobl ifanc.¹³

”

- Person ifanc, Cyngor Hil Cymru

Mae pobl ifanc yn tynnu sylw at y ffaith bod CCUHP wedi cael ei ysgrifennu dros 30 mlynedd yn ôl. Ers hynny, mae llawer wedi newid i blant a phobl ifanc, ac mae profiad plentyndod a ieuencid yn wahanol iawn yn 2020 i beth oedd e yn 1989. Yn benodol, mae'r defnydd o dechnoleg cyfathrebu wedi newid yn ddramatig dros y blynyddoedd, gan fod y modd mae pobl ifanc yn cysylltu ac yn rhannu ar-lein bellach yn rhan o fywyd pob dydd. Yn sgîl hynny, roedd y bobl ifanc yn cwestiynu a yw CCUHP yn amddiffyn pobl ifanc yn ddigonol ym myd digidol ein dyddiau ni.¹⁴

Awgrymodd pobl ifanc y dylai addysg seiliedig ar hawliau gychwyn yn y blynyddoedd cynnar a pharhau ar hyd bywyd yr ysgol, gyda gwersi penodol seiliedig ar hawliau.¹⁵

“

Sut mae'n bosib bod llywodraethau yn dal i fodoli mewn gwledydd sy'n cynnwys oedolion sy'n anwybyddu lles pennaf plant wrth lunio cyfreithiau a gwneud penderfyniadau? Pa obaith sydd ganddyn nhw ar gyfer dyfodol eu gwlad, ar gyfer dyfodol ein planed, ar gyfer dyfodol y ddynoliaeth, os ydyn nhw'n ceisio anwybyddu anghenion a dymuniadau'r plant yn eu gofal? Rwy'n gofyn y cwestiynau yma i chi, a chyda pharch, rwy'n disgwyl i chi wrando. Efallai mai plentyn wyf fi, ac efallai mod i'n fach, ond rwy'n gwybod bod gen i lais, a bod fy llais yn cyfri.¹⁶

”

- Benyw ifanc, Gogledd Iwerddon

¹² Arolwg adrodd CCUHP gyda grwpiau diddordeb arbennig, Comisiynydd Plant Cymru, 2020

¹³ Ibid

¹⁴ Pobl ifanc o YOYPIC (Voice of Young People in Care) Gogledd Iwerddon, 2020

¹⁵ Youth Justice Voices, Scottish Throughcare and Aftercare Forum (Staf)

¹⁶ [Children and Young People's Summit, NICCY, 2019](#)

Mae pobl ifanc hefyd yn ymwybodol o effaith ymgorffori CCUHP ar y ddarpariaeth iechyd meddwl:

“...ond dim ond i ddisgyblion ôl-gynradd mae'r Adran Addysg yn darparu cwnsela yn yr ysgol (yng Ngogledd Iwerddon). Mae hynny'n golygu bod gan blant iau yn ein hysgol sydd â phroblemau fel salwch, anabledd neu farwolaeth yn y teulu neb i siarad â nhw. All hynny ddim bod yn iawn. Tase CCUHP yn gyfraith falle byddai pawb yn deall hyn.¹⁷

- Gwryw ifanc, Gogledd Iwerddon

”

A dywedodd person ifanc ag anghenion addysgol arbennig:

“ Mae hawliau'n eich codi chi i fyny er mwyn i chi fod y gorau gallwch chi fod.

Gwryw ifanc, MENCAP Gogledd Iwerddon

”

Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Dywedodd pobl ifanc fod defnyddio Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIAs) yn ffordd bwysig o alw'r llywodraeth i gyfrif. Roedden nhw'n argymhell y dylid cynnal CRIA ar unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth neu bolisi a allai gael effaith ar lawer o blant a phobl ifanc, gan sicrhau eu bod nhw'n cael eu cynnwys. Ni ddylai oed plant fod yn rhwystr i gyfranogi mewn CRIA. I helpu plant a phobl ifanc i gynnal eu CRIAs eu hunain, dywedodd ymgynghorwyr ifanc Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban y byddai gwybodaeth am CCUHP, canllawiau ar gyfranogiad seiliedig ar hawliau a darparu enghreifftiau o CRIAs blaenorol o gymorth.¹⁸

“ Rwy'n meddwl ei fod yn bwysig bod plant a phobl ifanc yn rhan o asesiadau effaith. Allwch chi ddim gwneud rhywbeth am blant a phobl ifanc heb gynnwys plant a phobl ifanc. Neu i'w roi y ffordd arall, os yw plant a phobl ifanc yn ysgrifennu am oedolion, rydych chi'n amlwg yn cael mewnbwn oedolion, felly ddylai fe ddim bod yn wahanol fel arall.

- Benyw ifanc, Ymgynghorydd Ieuenctid CYPCS, Yr Alban

”

“ Bod yn barod i roi beth mae pobl wedi dweud ar waith, fel ei fod yn fwy nag ymarfer ticio bocsys.¹⁹

- Gwryw ifanc, Panel Ieuenctid NICCY, Gogledd Iwerddon

”

¹⁷ Ibid

¹⁸ CYPCS young advisers

¹⁹ Grŵp Effaith ar Hawliau Plant, Panel Ieuenctid NICCY

Diweddariad Covid

Mynegodd pobl ifanc gonsyrn mewn perthynas â'r sefyllfa ddiweddar lle defnyddiwyd graddau a ragfynegwyd yn lle arholiadau oherwydd cyfyngiadau'r Coronafeirws. Roedden nhw'n teimlo bod hon yn enghraifft lle nad yw llunwyr penderfyniadau wedi ystyried eu hawliau yn gywir.²⁰

Oherwydd methiant y wladwriaeth i gynnal CRIA yn ystod pandemig Covid cynhaliodd CYPCS Asesiad Effaith Hawliau Plant Annibynnol ar yr ymateb i Covid-19 yn yr Alban a fersiwn plant i gyd-fynd ag ef.²¹ Roedd hyn yn amlygu methiant y Llywodraeth i gynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

²⁰ Tim Cefnogi Ieuenctid Ethnig, Cymru

²¹ <https://cypcs.org.uk/coronavirus/independent-impact-assessment/>

Egwyddorion cyffredinol

Mae pedair egwyddor cyffredinol CCUHP – peidio â chamwahaniaethu, lles pennaf y plentyn, yr hawl i fywyd, goroesi a datblygu, parch at farn y plentyn – yn helpu i ddehongli'r holl erthyglau eraill a chwarae rôl waelodol wrth wireddu'r holl hawliau yn CCUHP i bob plentyn.

Peidio â Chamwahaniaethu

Mae rhai plant mewn grwpiau penodol yn dal i brofi camwahaniaethu. Yng Ngogledd Iwerddon, mae mwy o bobl ifanc yn teimlo ein bod ni'n byw mewn cymdeithas anghyfartal nag mewn cymdeithas gyfartal.²²

“*Cadw popeth yn gyfartal – hyd yn oed os yw'r plentyn neu'r person ifanc mewn gofal, yn anabl neu'n iawn, dylai pawb gael yr un hawliau.*”²³

- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

Mae plant wedi mynegi eu bod nhw'n gweld hiliaeth fel problem yn y gymdeithas ehangach lle nad yw pobl yn cael cydraddoldeb fel maen nhw'n haeddu, ac nad oes digon yn cael ei wneud ynghylch hiliaeth. Awgrymwyd y dylai CCUHP archwilio pa gynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â hiliaeth a materion eraill sy'n effeithio ar blant o gefndir BAME.

“*Pobl yn edrych arnoch chi'n gas, mae'n rhywbeth awtomatig iddyn nhw, a fwy na thebyg dydyn nhw ddim yn gwybod bod nhw'n ei wneud e, ond rydych chi wir yn teimlo eich bod chi'n disgwyl gweld hynny, ac yn teimlo'n hunan-ymwybodol iawn... achos bod chi wedi profi aflonyddu a phobl yn gweiddi pethau.*”

- Gwryw ifanc, Lloegr

“*Mae llawer o broblemau yn y gymdeithas: hiliaeth, a throseddau ddylai ddim bod yno. Dwy ddim yn gwybod, ond does dim angen amdano fe, ac rydw i'n teimlo, fel cymdeithas, rydyn ni i gyd yn byw ar y ddaear gyda'n gilydd felly dylen ni fod yn garedig i bawb. Ond mae cymaint o broblemau sy'n methu cael eu datrys oherwydd sut mae pobl yn meddwl, a dydw i ddim yn gwybod o ble mae'n dod, ond does dim angen hynny o gwbl.*”

- Benyw ifanc, Cymru

Esboniodd ceisiwr lloches ifanc, “*Oherwydd mod i'n geisiwr lloches, maen nhw'n tanbriso beth bynnag rwy'n gwneud*”. Anawsterau ychwanegol i geiswyr lloches yw cael mynediad i addysg uwch, lwfansau cynnal addysg a gwaith rhan amser.²⁴

²² [Our Young People: Perceptions of the Outcomes Framework, 2019 Young Persons' Behaviour & Attitudes Survey, NI](#)

²³ Ymateb i Ymgynghoriad Cynllun Corfforaethol NICCY, 2019

²⁴ Trafodaeth gyda phobl ifanc o Horn of Africa People's Aid, Gogledd Iwerddon (HAPANI), 2020

Mae modd hefyd i blant a phobl ifanc ag anghenion cymorth ychwanegol ddioddef camwahaniaethu yn eu herbyn. Maen nhw'n meddwl ei fod yn bwysig i ysgolion wneud yn siŵr bod pawb yn deall ac yn meddwl yn bositif am anghenion cymorth fel anableddau ac anawsterau iechyd meddwl. Maen nhw'n awgrymu y dylai athrawon gael hyfforddiant ar gynhwysiad a'r gwahanol fathau o anghenion cymorth a all fod gan ddisgyblion a sut gallai hynny effeithio arnyn nhw yn yr ysgol. Dywedodd y bobl ifanc ei fod yn wirioneddol bwysig bod ysgolion yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion cymorth yn cael yr un cyfle â disgyblion eraill i gael lleisio barn ar benderfyniadau.

“ Dydw i ddim yn meddwl bod pobl ifanc yn cael eu clywed gan oedolion achos mae oedolion yn anwybyddu beth mae pobl ifanc yn dweud, a ddim yn gwneud unrhyw beth amdano fe – yn wahanol i pan fydd oedolion yn dweud e.”²⁵

- Person ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig, MENCAP Gogledd Iwerddon

Mae pobl ifanc yn ymwybodol o effaith tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd.

“ Dyw pobl dlawd fel fi ddim yn cael eu trin cystal achos rydyn ni'n methu mynd i lwyth o lefydd.”²⁶

- Person ifanc, ymateb i arolwg Adrodd CCUHP, Cymru

“ Rwy'n credu bod dosbarth cymdeithasol a status plentyn yn aml yn chwarae rôl. Er enghraifft, mae plant o ddosbarth cymdeithasol uwch yn dal i dueddu i gael gwell cyfleoedd.”²⁷

- Person ifanc, ymateb i arolwg Adrodd CCUHP, Cymru

Parch at farn y plentyn

Cydnabyddir ein bod wedi gweld cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran cydnabod a derbyn hawl plant a phobl ifanc i gyfranogi a chael clywed eu llais yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae deddfwyr, adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau statudol wedi bod yn cydnabod fwyfwy CCUHP a'r ffaith, o wrando arnyn nhw, fod modd i blant a phobl ifanc chwarae rhan hanfodol yn y broses o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth hefyd fod pellter i fynd o hyd. Mae ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn ymgynghoriad cyhoeddus yn dal yn anwadal, ac yn aml yn ôl-ystyriaeth. Mae'r ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu deddfwriaeth, strategaethau a pholisïau yn ddarniog, yn anghyson ac yn aml yn dibynnu ar yr unigolyn yn hytrach nag ymarfer sefydliadol.²⁸

Yng Nghymru, dangosodd arolwg cenedlaethol²⁹ o hawliau mewn ysgolion (2018) fod disgyblion cynradd yn teimlo bod ganddyn nhw fynediad gwell at yr egwyddorion cyffredinol na'r rhai yn yr ysgol uwchradd: mae 68% o blant yn teimlo eu bod yn cael croeso yn eu hysgol; roedd 72% yn cael cyfle i gymryd rhan mewn

²⁵ [MENCAP NI](#)

²⁶ Arolwg Adrodd CCUHP gyda grwpiau diddordeb arbennig, Comisiynydd Plant Cymru, 2020

²⁷ Ibid

²⁸ <http://www.crae.org.uk/media/128581/Just-for-Kids-Law-CRAE-submission-JCHR-inquiry-on-COVID-June-2020-FINAL-.pdf>

²⁹ <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/Childrens-Rights-Survey.pdf>

penderfyniadau; dywedodd 83% fod gan athrawon ddiddordeb mewn sut maen nhw'n teimlo yn yr ysgol. Yn achos y disgyblion ysgol uwchradd, fodd bynnag, dim ond 48% oedd yn teimlo croeso yn eu hysgol; dim ond 42% ddywedodd eu bod nhw'n cael cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, a dywedodd 51% fod gan eu hathrawon ddiddordeb mewn sut maen nhw'n teimlo yn yr ysgol.

Roedd plant â chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol yn llawer llai positif, ac yn anghytuno bod oedolion yn dda am roi sylw i'w barn wrth wneud penderfyniadau, o gymharu â'r rhai heb gyflwr iechyd. Y rheswm a nodwyd amlaf ar gyfer pam dyw oedolion ddim yn gwrando oedd "bod e ddim yn ffitio da beth maen nhw eisiau clywed" neu "dydyn nhw ddim yn hoffi neb yn herio eu barn"³⁰

Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod nhw ddim bob amser yn teimlo bod eu barn yn cael ei chlywed nac yn cael digon o bwysau wrth wneud penderfyniadau. I rai, mae'n ymddangos yn ymarferiad 'ticio blychau', yn hytrach nag ymgais go iawn i'w cynnwys nhw wrth wneud penderfyniadau.³¹

“ Rydw i wedi cael sgysiau gyda llwyth o oedolion, fel aelodau o'r teulu, athrawon, ac mae'n rhwystredig iawn eu bod nhw mor gaeth i'w ffyrdd eu hunain o feddwl fel bod nhw'n gwrthod gwrando ar beth sydd gennyn ni i'w ddweud, ac yna maen nhw'n cwyno o hyd ein bod ni eisiau iddyn nhw ddeall ein safbwynt ni, ond maen nhw'n benderfynol o lynu at eu safbwynt eu hunain. Mae wir yn anodd achos mae fel petaen nhw'n dal i'n gweld ni fel plant. Hyd yn oed os ydyn ni wedi cael yr holl brofiadau yma, maen nhw'n dal i'n gweld ni fel plant bach sy'n dal i dyfu i fyny, ac sydd ddim yn deall y byd yn iawn³² ”

- Benyw ifanc yn byw gydag HIV, Lloegr

Amlygodd llawer o blant a phobl ifanc oedd â phrofiad o ofal eu bod nhw'n teimlo bod neb wedi gwrando, nac wedi parchu nac ystyried eu barn yng nghyswllt penderfyniadau pwysig oedd yn effeithio ar eu bywydau.³³

Rhannodd un bachgen y byddai'n well ganddo siarad â phlant eraill nag oedolion:

“ ...jyst siarad â'r plant yn lle'r oedolion. Yn ein llygaid ni, dyw'r oedolion ond yn gwybod beth sydd wedi cael ei ddweud wrthyn nhw, tra bod y plant yn gwybod beth sy wir yn digwydd.³⁴ ”

- Gwryw ifanc mewn gofal, Lloegr

³⁰ <https://www.cypcs.org.uk/ufiles/Young-People-in-Scotland-Survey-2017---PDF-of-powerpoint-results.pdf>

³¹ VOYPIC NI: Children's Report to inform List of Issues Prior to Reporting (LOIPR) August 2020

³² <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/publication/childhood-in-2020/>

³³ https://www.carereview.scot/wp-content/uploads/2020/07/ICR_Evidence_Framework_v2-1.pdf

³⁴ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2019/06/CCO-Advocacy-for-children-June-2019.pdf>

Soniodd rhai ymatebwyr am eu ffyrdd o sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed:

“*Mae'r gyfraith newydd sy'n datgan bod pobl ifanc 16 oed yn mynd i gael pleidleisio yn arwydd bod Llywodraeth Cymru yn cymryd Erthygl 12 o CCUHP i ystyriaeth³⁵*

- Person Ifanc, ymateb i arolwg Adrodd CCUHP, Cymru

”

Diweddariad Covid

Yn ystod y cyfnod clo a'r cyfyngiadau cymdeithasol, roedd yr ymgysylltu rhwng llunwyr penderfyniadau a phlant a phobl ifanc yn amlwg yn bennaf trwy fod yn absennol yn gyffredinol. Mewn sgysiau “profiadau cyfnod clo”³⁶ yn Lloegr, dywedodd plant y bydden nhw am i'w cwestiynau gael eu hateb gan lunwyr penderfyniadau, a nodi eu bod nhw'n methu cyflwyno eu cwestiynau i sesiwn holi'r Prif Weinidog.

“

Rydyn ni eisiau i'n cwestiynau gael eu hateb.

- Benyw ifanc, Lloegr

”

Ar draws y Gwledydd, rhannodd llawer o bobl ifanc eu teimlad bod eu llais heb gael ei ystyried yn bwysig, a'u bod heb gael cyfle i fynegi eu syniadau, ac i lunwyr penderfyniadau eu hystyried. Mae pobl ifanc yn dweud wrthyn ni eu bod nhw'n gallu gwneud cyfraniad sylweddol i ailgychwyn ein cymdeithas trwy rannu eu syniadau, eu pryderon a'u hatebion ar gyfer addasu sut rydyn ni'n byw gyda'r coronafeirws ac ar ei ôl³⁷.

“

Ar ôl i argyfwng Covid-19 ddod i ben, fyddwch chi'n cymryd barn pobl ifanc yn fwy o ddifri ar ôl yr aberth a'r cyfraniad rydyn ni wedi'i wneud ar hyd y cyfnod yma?

- Cwestiwn a ofynnwyd gan berson ifanc, Gogledd Iwerddon

”

Mae hawliau plant yn bwysicach nag erioed nawr, ond pan holwyd ynghylch eu gallu i gael mynediad i'w hawliau fel person ifanc, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (58%) i arolwg ynghylch profiadau pobl ifanc o'r cyfnod clo fod ganddyn nhw beth pryder ynghylch eu hawliau.³⁸

³⁵ Arolwg Adrodd CCUHP gyda grwpiau diddordeb arbennig, Comisiynydd Plant Cymru, 2020

³⁶ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/voices/lockdown-experiences/>

³⁷ 'Our Voices Aren't in Lockdown', NI Youth Forum, (2020)

³⁸ <https://www.youthlinkscotland.org/media/4486/lockdown-lowdown-final-report.pdf>

Hawliau a rhyddid sifil

Nid yw erthyglau oddi mewn i CCUHP yn cael eu cynnal yn ynysig, er enghraifft, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cynnwys lleisiau pobl ifanc a mathau eraill o ryddid a hawliau sifil a geir yn CCUHP. Mae'n rhaid deall yr hawliau hyn a'u gweithredu'n gyfannol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n arddel statws y plentyn fel un sydd â hawliau, sydd â hawl i ymarfer yr hawliau hyn ar ei r(h)an ei hun. Mae hynny'n cynnwys parch i berson ifanc gadw ei hunaniaeth, gan gynnwys cenedl. Mae hefyd yn cynnwys hawl i ryddid mynegiant, meddwl, cydwybod a chrefydd, yr hawl i feddu ar farn a'i mynegi a derbyn gwybodaeth trwy unrhyw gyfryngau.

Mae Erthygl 15, yr hawl i gymdeithasu'n rhydd ac ymgynnull yn heddychlun, yn offeryn pwysig ar gyfer hybu hawl plant i fynegi barn a cheisio sicrhau bod eu hawliau'n cael eu gweithredu. Mae angen i blant fedru cwrdd ag eraill, a ffurfio'u cymdeithasau a'u grwpiau eu hunain, er mwyn datblygu a mynegi eu barn a chreu mannau lle mae modd cyfleu'r farn honno i eraill.

Hawl i Ymgynnull

Roedd profiadau rhai pobl ifanc â hunaniaeth BAME yn gymysg iawn o ran eu triniaeth gan yr heddlu – teimlai rhai eu bod yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu cefndir diwylliannol.

“*Mae'r heddlu yn fy nhrin i'n anghwrtais ac yn amharchus, bob tro bydda i mewn grŵp mawr, maen nhw'n rhagdybio ein bod ni'n creu trwbwl, maen nhw'n meddwl mod i'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn rhagdybio pethau*

- Person ifanc, Cyngor Hil Cymru

“*Mae pobl yn meddwl eich bod chi'n mynd i wneud rhywbeth drwg os ewch chi allan mewn grwpiau mawr o sipsiwn*

- Person ifanc o Grŵp Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cymru

Mae plant a phobl ifanc wedi sôn am brofiadau ledled Cymru gyda Streiciau'r Hinsawdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae adroddiadau bod rhai ysgolion yn cefnogi gweithredu gan y disgyblion, tra bod eraill wedi ymateb trwy eu cosbi. Mae rhai pobl ifanc wedi trefnu ralïau, ac wedi cael bod yr heddlu'n gefnogol os gallwch chi roi rhybudd iddyn nhw. Rhannodd person ifanc o Gyngor Hil Cymru a fu'n bresennol mewn protest Mae Bywydau Du o Bwys (BLM), “roedd yr heddlu'n gefnogol iawn, iawn”.

Esboniodd rhai pobl ifanc yng Nghymru sydd mewn mannau gwledig ynysig nad oedd ymgyrchu mor hawdd.

Mae defnyddio “dyfeisiau mosgito” i atal plant a phobl ifanc rhag ymgynnull tu allan i siopau, ysgolion neu orsafoedd rheilffordd yn dal yn fater sy'n destun pryder i bobl ifanc.

Mae defnyddio dyfais mosgito yn anghydnaws â CCUHP, sy'n gofyn bod partïon gwladol yn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o gamwahaniaethu neu gosb.³⁹ Nid yw defnyddio'r ddyfais yn annog pobl ifanc i ymddwyn yn gyfrifol; yn hytrach mae'n rhagdybio na fyddan nhw. Nid yw'n gwahaniaethu rhwng pobl ifanc sy'n gwneud rhywbeth anghyfreithlon a'r rhai sydd ddim.

³⁹ [Art 2.2, UNCRC](#)

Mewn astudiaeth ddiweddar, er bod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc heb ddod ar draws un yn bersonol, profodd bron hanner y rhai oedd wedi gwneud effeithiau iechyd neu deimlad anghysurus ar ôl bod mewn cysylltiad â dyfais.⁴⁰

“

Eithriadol o annymunol, fel 'byzzan' yn fy mhen.

- Person ifanc, yr Alban

”

“

Dyw dyfeisiau mosgito ddim yn creu ymdeimlad o gymuned; yn hytrach maen nhw'n creu rhaniad rhwng y cenedlaethau.

- Person ifanc, yr Alban

”

Cyfiawnder Hinsawdd

Ar draws y Deyrnas Unedig, aeth degau o filoedd o bobl ifanc allan i'r strydoedd i brotestio ynghylch diffyg gweithredu'r llywodraeth yn wyneb Argyfwng yr Hinsawdd. Yn 2019 gwelwyd dros 850 o brotestiadau, gan gynnwys Streic Hinsawdd Byd-eang mis Medi, lle'r aeth dros 300,000 o bobl allan i'r strydoedd ar draws y Deyrnas Unedig.⁴¹

Fel pobl ifanc eraill ar draws y Deyrnas Unedig, amcangyfrifir bod 5,000 o blant yn yr Alban wedi cymryd rhan mewn streiciau hinsawdd ym mis Mawrth 2019. Fe gerddon nhw allan o'u hysgolion cynradd ac uwchradd i gymryd rhan. Bu rhai gwleidyddion ar draws y Deyrnas Unedig yn cwestiynu a ddylai plant adael yr ysgol i gymryd rhan yn y streiciau. Wynebodd llawer o ddisgyblion fygythiad y byddent yn cael eu cosbi neu eu disgyblu am golli amser yn yr ysgol. Bu rhai yn amddiffyn eu safbwynt, gan ddweud bod actifyddiaeth amgylcheddol yn brofiad addysgol ynddo'i hun.⁴²

“

Mae'n bwysig dangos i bawb bod rhaid gwrandao arnon ni, achos ein dyfodol ni yw e, ac mae colli un awr yr wythnos yn werth ei wneud. Mae angen i ni sefyll i fyny a gadael i'r bobl sy'n gyfrifol wybod bod y blaned yn werth ei hachub ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a bywyd gwyllt.

- Benyw ifanc, yr Alban

”

“

Os ydych chi'n dal heb ddeall rhywbeth mor fawr yw hyn, gadewch i fi ddweud rhywbeth arall wrthydd chi a allai eich deffro ychydig, byddai ynysoedd cyfan, ie, dyna ni, ynysoedd cyfan yn diflannu! Mae rhai pobl yn anwybyddu'r mater yma oherwydd eu bod nhw ddim yn credu gallan nhw wneud gwahaniaeth ar eu pen eu hunain, tra bod eraill yn ei anwybyddu oherwydd eu bod nhw'n credu, os gwnân nhw hynny, y bydd yn mynd i ffwrdd. Does dim gwirionedd yn y naill safbwynt na'r llall.⁴³

- Benyw ifanc, Gogledd Iwerddon

”

⁴⁰ <https://youngscot.net/antiloitering-devices-text-only>

⁴¹ <https://ukscn.org/>

⁴² <https://cypcs.org.uk/resources/human-rights-defenders-promote-protect-defend/>

⁴³ [Children and Young People's Summit, NICCY, 2019](#)

Hunaniaeth – Mynegi Crefydd a Diwylliant

Roedd rhai pobl ifanc yng Nghymru yn gadarnhaol am fedru ymarfer eu crefydd a'u harferion diwylliannol.

“*Ie, fuodd na erioed adeg pan oedden ni'n methu ymarfer ein crefydd a'n diwylliant yn deg*

- Person ifanc, Cyngor Hil Cymru

”

Fodd bynnag, soniodd un fenyw ifanc BAME am sut cafodd hi ei chywilyddio a'i herio m wisgo Hijab gan ddisgyblion eraill, oedd yn dweud wrthi y dylai ei dynnu i ffwrdd, ond pan wisgodd disgybl arall groes ar gadwyn bu'r un disgybl oedd wedi'i phoeni hi yn herio'r athro ac yn dweud “*Mae ganddi hawl i ddilyn ei chrefydd*”.⁴⁴

Dywedodd ceisiwr lloches ifanc benyw o Ogledd Iwerddon, “*Beth bynnag wnewch chi, byddwch chi wastod yn cael eich labelu fel rhywun tramor.*”⁴⁵

Gwybodaeth

Byddai pobl ifanc yn hoffi i ragor o wybodaeth gael ei darparu, gan gynnwys gwybodaeth fwy hygyrch am ble mae cael cyngor a chefnogaeth, fel y nodwyd gan grwpiau LHDTG a Sipsiwn, Roma a Theithwyr; sut i gwyno am yr ysgol a sut i gael gwybodaeth am CCUHP.⁴⁶

Diweddariad Covid

Roedd cyfyngu ar ryddid a hawliau sifil plant yn ymateb angenrheidiol i argyfwng iechyd cyhoeddus ond mae'r 'cyfnod clo' wedi cael effaith ar allu plant i gwrdd a chymdeithasu'n rhydd â'u teuluoedd a'u ffrindiau.⁴⁷

“*Y newid mwyaf yw peidio gweld eich ffrindiau achos roeddwn i'n arfer gweld fy ffrindiau bob dydd. Mae'n gwneud i fi deimlo'n drist achos roedden nhw'n gwneud i fi chwerthin.*

- Benyw ifanc, yr Alban

”

⁴⁴ Person ifanc o'r grŵp Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig, Cymru

⁴⁵ Trafodaeth gyda phobl ifanc o Horn of Africa People's Aid, Gogledd Iwerddon (HAPANI), 2020

⁴⁶ Arolwg Adrodd CCUHP gyda grwpiau diddordeb arbennig, Comisiynydd Plant Cymru, 2020

⁴⁷ <https://www.childrensparliament.org.uk/our-work/children-and-coronavirus/>

Trais yn erbyn plant

Mae rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, cam-drin, esgeuluso a thriniaeth wael gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt nhw. Mae Llywodraethau ac eraill wedi datblygu mentrau niferus i atal ac ymateb i drais yn erbyn plant, ond mae angen gwneud mwy.

Mae costau dynol, cymdeithasol ac economaidd gwadu hawliau plant i amddiffyniad yn aruthrol ac yn annerbyniol. Gall y costau uniongyrchol gynnwys gofal meddygol, gwasanaethau lles cymdeithasol a chyfreithiol a gofal amgen. Gall y costau anuniongyrchol gynnwys anaf neu anabledl parhaol o bosibl, costau seicolegol neu effeithiau eraill ar ansawdd bywyd dioddefydd, amharu ar addysg neu ddod ag addysg i ben, a cholledion cynhyrchiant ym mywyd y plentyn yn y dyfodol.⁴⁸

Cam-drin domestig

Mae pob cam-drin domestig wedi'i seilio ar ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli, ac mae plant wedi sôn wrthyn ni droeon am yr ofn parhaus a'r straen tocsig oedd yn rhan o'u bywyd yn y cartref. Mae ymchwil yn dangos bod 1 o bob 4 plentyn o dan 5 oed, ar draws y byd, yn byw gyda mam sydd wedi dioddef trais gan bartner yn ddiweddar.⁴⁹ Canfu'r *Vulnerability Report*⁵⁰ yn 2019 fod 830,000 o blant yn Lloegr yn byw mewn aelwydydd lle mae cam-drin domestig wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae bellach yn cael ei gydnabod bod byw mewn cartref lle mae cam-drin domestig yn brofiad niweidiol yn ystod plentyndod a fydd yn arwain at ganlyniadau gwael i bobl ifanc, os nad yw'n derbyn sylw.⁵¹

Dyw gwrando ar blant a phobl ifanc ddim yn ddigon ynddo'i hun, mae'n rhaid hefyd i'r Llywodraeth weithredu ar sail beth maen nhw'n ei ddweud a chwarae eu rhan i wella bywydau plant a phobl ifanc sy'n dioddef effaith cam-drin domestig.

“*Nid dim ond oedolion sy'n mynd trwyddo fe, mae plant yn dioddef hefyd.*”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

“*Weithiau dydyn ni ddim eisiau gwneud i'n mamau bryderu. Rydyn ni'n cadw'r cyfan i mewn ac yn ceisio amddiffyn nhw achos mae ganddyn nhw ddigon ar eu plât, a dyw hynny ddim yn dda chwaith. Mae'n dda bod â rhywun tu allan i'r teulu i'n cefnogi ni, rhywun sy ddim yn rhan o'r sefyllfa i siarad â nhw.*”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

“*Mae gan bawb ohonon ni hawl i deimlo'n ddiogel drwy'r amser*”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

⁴⁸ [CRC: General comment No. 13 \(2011\) The right of the child to freedom from all forms of violence](#)

⁴⁹ [UNICEF \(November 2017\) A Familiar Face, Violence in the Lives of Children and Adolescents.](#)

⁵⁰ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/childhood-vulnerability-in-england-2019/>

⁵¹ [‘See, Hear, Act’, A strategy for children and young people \(2019 – 2029\); Women’s Aid NI Federation, Northern Ireland 2019](#)

Achosion Llys

Dyweddodd plant a phobl ifanc fod cael lleisio barn yn bwysig iawn pan fydd llys yn gwneud penderfyniadau ynghylch cyswllt â rhieni. Roedden nhw'n aml yn teimlo bod eu barn yn cael ei hanwybyddu mewn achosion cyswllt a bod llenwi ffurflenni yn anodd. Mae'n well gan rai pobl ifanc siarad wyneb yn wyneb, cyfathrebu trwy chwarae, dweud trwy dynnu llun, adeiladu lego, rhoi eu teimladau mewn fideo neu recordiad llais. Roedd angen hefyd iddyn nhw gael gwybod mewn iaith roedden nhw'n ei deall pa benderfyniad oedd wedi cael ei wneud, pam, a beth roedd hynny'n ei olygu iddyn nhw.⁵²

“Doedd y siryferioed wedi cwrdd â Zayne a Mia (cymeriadau mewn stori). Pam dylai hi benderfynu? Grace (y gweithiwr cefnogi) ddylai benderfynu, achos rydyn ni'n trystio hi.”

- Person ifanc, yr Alban

”

Cam-drin ac esgeuluso

Ar draws y Deyrnas Unedig, profodd 5% o blant o dan 11 a 13.4% o bobl ifanc 11–17 oed gamdriniaeth ddifrifol gan riant neu warcheidwad yn ystod eu plentyndod.⁵³

Mae 'Adroddiad Nodweddion Plant mewn Angen'⁵⁴ 2018/19, yr un diweddaraf, yn dangos bod cam-drin neu esgeuluso wedi'i gofnodi fel prif angen a nodwyd wrth asesu yn achos 54% o'r plant mewn angen ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn cymharu â 53% yn 2017/2018 a 49% yn 2015.

Mae dros 2 filiwn o blant yn Lloegr yn byw mewn teuluoedd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys y rhai sy'n byw gyda cham-drin domestig; rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau (alcohol neu gyffuriau) a phroblemau iechyd meddwl rhieni. Amcangyfrifir bod 100,000 o blant yn byw mewn aelwydydd lle mae pob un o'r tair problem yma'n bodoli.

“Tua'r diwedd rydych chi jyst yn colli pob teimlad... rydych chi jyst, fel tasech chi'n derbyn y peth, os dyma sut mae fy mywyd yn mynd i fod does dim pwynt i fi gwyno amdano fe os ydw i'n methu gwneud dim byd amdano fe.”

- Benyw ifanc yn byw mewn aelwyd ag anghenion cymhleth, Lloegr

”

Soniodd plant am effaith yr amgylchedd roedden nhw'n byw ynddo arnyn nhw:

“Yn fy mhen roeddwn i'n beio fy hunan mewn ffordd – ddylsen i ddim bod wedi siarad am y peth – fy mai i oedd e – gyda'r holl bobl yma'n dod ac yn gofyn cwestiynau.”

- Benyw ifanc yn byw mewn aelwyd ag anghenion cymhleth, Lloegr

”

⁵² Power Up, Power Down, CYPCS and Women's Aid <https://womensaid.scot/project/power-up-power-down/>

⁵³ <https://learning.nspcc.org.uk/media/1042/child-abuse-neglect-uk-today-research-report.pdf>

⁵⁴ <https://www.gov.uk/government/statistics/characteristics-of-children-in-need-2018-to-2019>

⁵⁵ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2018/08/Are-they-shouting-because-of-me.pdf>

“ *Roeddwn i'n gwybod mod i'n teimlo'n isel. Ac roeddwn i'n meddwl bod hynny'n normal, bod lot o bobl yn teimlo'n isel ac yn bryderus, yn enwedig gan mod i'n mynd trwy hyn gartre, roeddwn i jyst yn disgwyl y peth. Ond yna yn araf fe aeth yn waeth ac yn waeth. Byddwn i'n gaeth i'r gwely llawer o'r amser, fyddwn i ddim yn mynd allan ar y penwythnos, byddwn i jyst yn aros gartre. Yr unig bryd bydden i'n codi oedd i fynd i'r stafell molchi. Weithiau fyddwn i ddim yn bwyta... roeddwn i'n hunan-niweidio a phethau ac oeddwn, roeddwn i'n gwneud pethau niweidiol i fy hunan.* ”

- Benyw ifanc yn byw mewn aelwyd ag anghenion cymhleth, Lloegr

Bwlio

Mae llawer o blant mewn rhai grwpiau, gan gynnwys plant BAME, plant ag anghenion cefnogi ychwanegol a phlant LHDTRhC+ yn dal i brofi camwahaniaethu a stigmatiddio. Mewn adroddiad yn yr Alban, dywedodd bron 50% o'r bobl ifanc LHDTRhC+ eu bod nhw'n ymwybodol o achosion lle roedd eraill wedi cael eu bwlio, ac adroddodd dros hanner y nifer yma fod y bwlio o ganlyniad i gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd person.⁵⁶

“ *Yn gymdeithasol, dyw pobl ifanc o grwpiau lleiafrifol (lhd+, mewnfydwyr, pobl liw) ddim bob amser yn cael eu trin yn gyfartal gan eraill. Mae angen i ysgolion wneud yn well i gymedroli iaith homoffobig a senoffobig.* ”

- Ymateb i arolwg grŵp diddordeb arbennig, Cymru

Gangiau a Grwpiau Parafilwrol

Gall pobl ifanc gael eu denu i gangiau am lawer o wahanol resymau. Rhai ohonyn nhw yw ffitio i mewn gyda ffrindiau ac aelodau eraill o'r gang; teimlo'n bwysig a'u bod yn cael eu parchu; cael eu hamddiffyn rhag bwlio neu rhag gangiau eraill; gwneud arian o droseddu neu gyffuriau a chael statws a theimlo'n bwerus.

Bu cynnydd yn nifer y plant sydd wedi dioddef troseddau cylllyll, ac mae llawer yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol neu'n droseddol, neu'n cael eu paratoi i ymuno â gangiau. Mae adroddiad 2019 'Keeping children safe'⁵⁷ yn dangos bod 27,000 o blant yn Lloegr yn aelodau o gangiau. Dyw plant ddim yn ymuno â gangiau o'u gwirfodd, ond mae gangiau yn manteisio ar sefyllfa plentyn, er enghraifft, pan gaiff plentyn ei wahardd o'r ysgol, mae gangiau'n rhoi'r argraff mai'r unig bosibilrwydd i'r dyfodol yw ymuno â nhw.

Soniodd pobl ifanc o ardaloedd yng Ngogledd Iwerddon sy'n profi trais parafilwrol am deimlo'n ofnus ac yn anniogel yn eu cymunedau, clywed hanesion rheolaidd am ymosodiadau ar bobl yn yr ardal, neu dystio i ôl-ffeithiau ymosodiadau o'r fath eu hunain. Mewn astudiaeth ddiweddar⁵⁸, roedd mwy na 2 o bob 5 (43.6%) yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod grwpiau parafilwrol yn achosi ofn a bygythiad yn eu hardal. Oherwydd byddai eu gweithgareddau pob dydd yn dod at sylw'r grwpiau parafilwrol, soniodd rhai pobl ifanc am golli eu plentynod. Y rheswm am hynny oedd bod llawer o'r gweithgareddau sy'n cael eu cysylltu â ieuencid (llercian o gwmpas, gwneud pethau dwl, bod yn swnllyd, yfed etc.) yn cael eu diffinio fel pethau 'gwrthgymdeithasol' gan y grwpiau parafilwrol.⁵⁹

⁵⁶ <https://www.lgbtyouth.org.uk/media/1734/life-for-lgbt-young-people-in-dumfries-galloway.pdf>

⁵⁷ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/keeping-kids-safe/>

⁵⁸ [The Mental Health of Children & Parents in Northern Ireland Results of Youth Wellbeing Prevalence Survey, Oct 2020](#)

⁵⁹ [Experiencing Paramilitarism: Understanding the Impact of Paramilitaries on Young People in Northern Ireland, QUB \(2018\);](#)

“ *Dydw i ddim yn deall chwaith achos... mae'r grwpiau parafilwrol yn gwneud i'r bobl ifanc werthu'r cyffuriau, ac yna mae'r bobl ifanc efallai'n mynd i ddyled, a beth sy'n digwydd os nad yw'r bobl ifanc yn talu'r arian sy'n ddyledus, ac yna mae'r grwpiau parafilwrol yn eu curo nhw'n wael... y bachgen roeson nhw'r cyffuriau iddo fe i'w gwerthu yn y lle cynta* ”

- Benyw ifanc, Gogledd Iwerddon

Ataliaeth ac Ynysu

Ystyr ataliaeth yw gafael mewn plentyn neu berson ifanc i'w hatal rhag symud, ac ystyr ynysu yw cau plentyn i mewn ar ei b/phen ei hun heb ganiatáu iddo/iddi fynd allan. Mae ataliaeth ac ynysu fel ei gilydd yn fathau o ymyrraeth gorfforol. Defnyddiodd pobl ifanc eiriau fel ofnus, pryderus, trist, dryslyd, diddefnydd a heb gael eu caru pan ofynnwyd iddyn nhw sut gallai ataliaeth ac ynysu wneud i blentyn deimlo. Roedd ymchwiliad Comisiynydd yr Alban 'No Safe Place' yn canolbwyntio ar ganllawiau awdurdodau lleol ynghylch ataliaeth ac ynysu. I blant sy'n cael eu hynysu'n rheolaidd, gall yr effaith ar eu haddysg, ac o ganlyniad eu dyfodol, fod yn ddwys.⁶⁰

Does dim canllawiau cynhwysfawr ar gyfyngu defnydd o ynysu yn ogystal ag ataliaeth, tra bod adroddiadau sy'n peri pryder ynghylch plant, yn arbennig mewn darpariaethau arbennig, yn cael eu hatal mewn modd sy'n achosi poen.

“ *...unrhyw bryd rydych chi'n atal neu'n ynysu plentyn mae effaith emosiynol sylweddol, chi'n gwybod, ar y plentyn yna. Ac rwy'n credu mai dyna lle mae rhaid i ni gael cydbwysedd. Mae rhai cael cydbwysedd rhwng y bygythiad posib mae'r plentyn yn ei achosi i eraill a'r niwed fyddai'n cael ei achosi i'r plentyn. Chi'n gwybod, felly os nad oes dim o'r ffactorau yna'n bresennol, os ydyn nhw'n aflonyddu'n unig, a dim ond yn gwrthod gwneud beth sy'n cael ei ddweud wrthyn nhw, yna dyw'r niwed sy'n cael ei achosi i'r plentyn ddim yn gallu cael ei gyfiawnhau mewn unrhyw ffordd.* ”

- Person ifanc, yr Alban

Mae plant wedi codi pryderon bod eu barn ddim yn cael ei gwrandao na'i hystyried ar faterion sy'n ymwneud ag ataliaeth ac ynysu mewn ysgolion.

“ *Mae pobl ag anableddau i fod i gael eu trin yn gyfartal. Mae athrawon i fod i adnabod arwyddion awtistiaeth a chael hyd i'r ffyrdd gorau o gefnogi a helpu eu disgyblion.* ”⁶¹

- Person ifanc, yr Alban

⁶⁰ <https://www.cypcs.org.uk/ufiles/No-Safe-Place.pdf>

⁶¹ Ibid

Yng ngwaith diweddar Comisiynydd Lloegr ar 'blant sy'n cael eu hamddifadu o ryddid'⁶², mae pobl ifanc yn dweud wrthyn ni sut brofiad yw cael eu hatal iddyn nhw:

“Bydden nhw'n gafael ynof fi, ac ar unwaith byddwn i'n dechrau sgrechian nerth fy mhen achos wi'n syth nôl i'r lle dydw i ddim eisiau bod. Maen nhw'n gafael ynoch chi, ac mae'n cymryd lot o bobl i atal fi... dydw i ddim hyd yn oed yn cofio hanner o beth sy'n digwydd. Mae jyst yn dod drosta i.”

- Benyw ifanc, Lloegr

Roedd y profiad yma'n fwy dwys fyth i'r rhai oedd wedi goddef brechiad mewngyhyrol:

“Pan fyddwch chi'n gwybod bod y nyrsys yna'n dod i'r stafell, mae'n hollol arswydus, achos rydych chi'n gwybod bod e'n digwydd, ac rydw i'n gwneud popeth alla i, ond yna mae rhyw saith o bobl ar eich pen chi yn ceisio dal pob rhan o'ch corff lawr, dyna'r peth gwaetha. Rydw i jyst yn llefen – peidiwch â gwneud e.”

- Benyw ifanc, Lloegr

Cadw'n ddiogel ar-lein

I'r mwyafrif o blant mae bod ar-lein yn rhan o'u bywydau pob dydd, ac mae'r rhan fwyaf o blant yn ei weld fel peth positif. Ond mae rhai plant hefyd wedi dweud wrthyn ni eu bod nhw'n teimlo bod y cyfryngau cymdeithasol yn ymyrryd gormod yn eu bywydau:

“Yn fy achos i, fe wnes i ddileu fy nghyfryngau cymdeithasol achos rwy'n sylweddoli mod i ddim yn hapus, ac roeddwn i'n arfer cymharu fy hun â llawer o ferched ar Instagram hefyd, ond nawr mod i wedi cael gwared ohono fe, rwy'n teimlo'n llawer hapusach gyda fy hun.”

- Benyw ifanc yn byw gydag HIV, Lloegr

Mae gan dri chwarter o'r plant 10-12 oed yn y Deyrnas Unedig gyfrif cyfryngau cymdeithasol. Dangosodd gwaith Comisiynydd Plant Lloegr 'Life in Likes'⁶⁴ yn 2018 fod llawer o blant 11 a 12 oed yn cael bod cyfryngau cymdeithasol yn anodd eu rheoli, ac yn dod i ddibynnu ar gael eu 'hoffi' a 'sylwadau'. Maen nhw'n teimlo pwysau i'w hymddygiad all-lein newid i gyd-fynd â'u delwedd ar-lein, ac mae plant yn pryderu am gynnal y ddelwedd yma.

“Os ydych chi heb bethau drud, 'designer', bydd pobl yn gwneud hwyl am eich pen.”

- Benyw ifanc, Lloegr

⁶² Gwaith sydd i ddod, Comisiynydd Plant Lloegr

⁶³ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/03/cco-childhood-in-2020.pdf>

⁶⁴ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/life-in-likes/>

Mae 93% o blant 10-16 oed yn y Deyrnas Unedig yn chwarae gêmiau fideo⁶⁵. Mae plant yn gweld gêmiau fel hyn fel math o chwarae, a hefyd yn fodd i ryngweithio'n gymdeithasol ar-lein.

“ *Galla i sgwrsio â'm holl ffrindiau pan dydyn nhw ddim gyda fi... neu os ydyn nhw eisiau dweud pethe wrthyf fi'n breifat.*⁶⁶ ”

- Benyw ifanc, Lloegr

Ond mynegodd plant hefyd brofiadau negyddol am chwarae gêmiau ar-lein. Teimlai plant fod angen iddyn nhw wario arian ar-lein i wneud yn siŵr bod eu cymeriadau ar-lein yn cael eu gweld mewn ffordd bositif. Soniodd plant hefyd am deimlo'n rhwystredig a chael eu bwlio. Dywedson nhw hefyd fod perygl y byddai dieithriaid yn cysylltu â nhw ar-lein, er enghraifft y gallen nhw gael eu twyllo i rannu gwybodaeth bersonol. Dywedodd rhai plant hefyd eu bod nhw'n treulio llawer o amser ar-lein yn chwarae gêmiau, ac roedd rhai yn teimlo eu bod nhw'n gaeth iddyn nhw.

“ *Mae fel gamblo – gallech chi golli eich arian heb gael neb da, neu gael rhywun gwirioneddol dda.* ”

- Gwryw ifanc yn siarad am 'loot boxes'⁶⁷, Lloegr

Pan ofynnwyd i bobl ifanc beth fyddai'n ddefnyddiol i gadw'n ddiogel ar-lein⁶⁸, y dewis mwyaf poblogaidd oedd 'gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gwybod pwy i drystio ar-lein' ac yna 'addysgu pobl ifanc am fod yn garedig ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol'. Roedd gwneud yn siŵr bod athrawon yn cymryd bwlio o ddifri a rhoi rhagor o wybodaeth i rieni ynghylch sut mae taclo bwlio ar-lein hefyd yn flaenoriaethau i bobl ifanc.

Yn adroddiad Comisiynydd Plant Cymru [Paid â Phoeni, Rydw i Yma i Ti](#)⁶⁹, negeseuon allweddol gan blant a phobl ifanc ynghylch seiberfwlio oedd eu bod nhw eisiau cael eu cynnwys mewn ffyrdd o hybu ymddygiad cadarnhaol ar-lein; y dylai fod mentrau wedi'u harwain gan gyfoedion; a'u bod nhw'n aml ddim yn hyderus ynghylch gwybodaeth oedolion am y byd ar-lein. Esboniodd un plentyn, pan fyddan nhw'n gorfod wynebu lefel y bwlio ar-lein:

“ *Mae oedolion mewn sioc ac yn methu gwneud dim, dydyn nhw ddim yn gwybod beth i wneud.* ”

- Person ifanc, Cymru

⁶⁵ <https://parentzone.org.uk/system/files/attachments/The%20Ripoff%20Games%20-%20Parent%20Zone%20report.pdf>

⁶⁶ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/gaming-the-system/>

⁶⁷ Mae 'loot boxes' yn rhoi cyfle i chwaraewyr ennill gwobr ar hap pan gânt eu hagar. Yn aml gall blychau gael eu prynu am arian go iawn, ac weithiau mae modd prynu a gwerthu'r gwobrau.

⁶⁸ Beth Nawr, 2019, Comisiynydd Plant Cymru

⁶⁹ <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/Dont-Worry-Im-here-for-you-childrens-experiences-of-cyberbullying-in-Wales.pdf>

Diweddariad Covid

Mae'r amodau a grewyd gan COVID-19 wedi cynyddu'r tebygolrwydd y bydd straen a bod yn agored i niwed yn cynyddu, ar adeg pan yw'r gwasanaethau amddiffyn oedd fel arfer yn cael eu darparu, ac yr oedd pobl yn dibynnu arnyn nhw, wedi cael eu gwanhau, ac mae gan deuluoedd lai o gefnogaeth gymdeithasol a chysylltiadau i ddibynnu arnyn nhw. Mae llawer o rieni a gofalwyr wedi wynebu ansicrwydd ariannol, newidiadau i'w trefn ddyddiol, a jyglo llw o gyfrifoldebau, gan gynnwys gwaith, gofal plant amser llawn a gofal am aelodau o'r teulu a all fod yn cael eu gwarchod neu'n sâl.

Mae mwyafrif o blant a phobl ifanc yn dweud wrthyn ni eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel gartref.⁷⁰ Ond rhannodd rhai plant a phobl ifanc bwysau teuluol sy'n destun pryder, yr oedden nhw'n teimlo bod y cyfnod clo wedi'u gwaethygu:

“Gwnaeth y cyfnod clo fy mhrif aelwyd (un fy nhad) yn llawer iawn mwy gelyniaethus.”
- Person ifanc, Cymru

“Mae'n gas gen i glywed llais uchel fy nhad yn siarad â'i ffrindiau ac yn cwyno amdanon ni drwy'r amser. Dydyn ni ddim yn gwneud unrhyw beth o'i le. Rydw i eisiau gadael y tŷ cyn gynted ag y galla i, ond alla i ddim a does yna unman i fynd.”
- Person ifanc, Cymru

Soniodd Childline am gynnydd o 22% yn y sesiynau cwnsela am gam-drin plant, a chynnydd o 53% yn y bobl fu'n cysylltu gyda phryderon am blant yn profi cam-drin corfforol o gymharu Ebrill – Gorffennaf 2020 â Ionawr – Mawrth 2020.⁷¹

Er bod amser ar-lein wedi cynnig llawer o fanteision i blant yn ystod y pandemig, fel dysgu ar-lein, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau, a gweithgareddau eraill ar-lein, mae arwyddion cynnar bod cam-drin plant ar-lein wedi cynyddu yn ystod y cyfnod yma. Mae niferoedd yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol⁷² yn dangos bod cynnydd o 10% yn yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein a drosglwyddwyd i'r heddlu yn ystod 13 wythnos cyntaf y cyfnod clo, o gymharu â'r un cyfnod yn ystod blynyddoedd blaenorol.

Mae cam-drin domestig yn destun pryder arbennig yn ystod y pandemig presennol. Bu cynnydd o 80% yn y galwadau i'r Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Cam-drin Domestig⁷³ ym mis Mehefin (2020). Gwelwyd gostyngiad yn yr atgyfeiriadau trwy'r ysgol, trwy Feddygon Teulu a thrwy weithwyr proffesiynol eraill wrth i wasanaethau symud ar-lein neu gau.

Yn ogystal â thystio i'r cam-drin, mae plant mewn aelwydydd lle ceir cam-drin domestig yn ei brofi mewn ffordd real iawn a gall yr effeithiau barhau i oedolaeth. Roedd y cyfnod clo yn golygu cael ein cadw yn ein cartrefi, gyda'r bobl eraill yn ein haelwyd, bron 24 awr y dydd. Nid yw cartrefi o reidrwydd yn lle diogel i lawer o blant. Mae'r cyfnod clo wedi cael effaith negyddol benodol ar lawer o fenywod a phlant a oedd yn profi, neu a oedd wedi profi, cam-drin domestig.⁷⁴

⁷⁰ [Arolwg Coronafeirws a Fi](#), Comisiynydd Plant Cymru (2020)

⁷¹ <https://learning.nspcc.org.uk/media/2292/impact-of-coronavirus-pandemic-on-child-welfare-physical-abuse.pdf>

⁷² <https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/news/onlinesafetyathome>

⁷³ <https://www.nationaldahelpeline.org.uk/>

⁷⁴ [A Perfect Storm: The Impact of the Covid-19 Pandemic on Domestic Abuse Survivors and the Services Supporting Them Women's Aid \(2020\)](#)

Amgylchedd y teulu a gofal amgen

Mae bywyd y teulu i fod i sicrhau twf, llesiant, amddiffyniad, cefnogaeth a gofal i blant a phobl ifanc, a'u hybu hyd eithaf eu potensial. Os yw person ifanc i fod yn ddinesydd a rymuswyd, mae'n rhaid i'r wladwriaeth gefnogi'r teulu a rhoi cymorth i deuluoedd sy'n cael eu hunain mewn sefyllfa fregus.

Os nad yw person ifanc yn gallu byw gyda'u teulu bellach, dylid trefnu gofal amgen gyda golwg ar eu lles pennaf. Dylai hyn fod mor agos â phosibl, fel sy'n briodol, at ble mae person ifanc yn arfer byw. Mewn egwyddor, dylai cyswllt â theulu a ffrindiau barhau, gyda phosibilrwydd y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn dychwelyd at eu teulu.

Ar draws y pedair gwlad, roedd gan bobl ifanc feddyliau cadarnhaol a negyddol i'w rhannu.

Pobl Ifanc mewn Gofal

Wrth drafod⁷⁵, dywedodd rhai pobl ifanc eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn mewn gofal, ond nodwyd nad yw hynny'n wir yn achos pob person ifanc sydd mewn gofal. Nododd y bobl ifanc bwysigrwydd gofalwyr maeth 'da' ac effaith gadarnhaol sefydlogrwydd yn eu cartrefi. Lleisiodd rhai o'r bobl ifanc bryderon ynghylch sut mae gofal yn cael ei strwythuro, gan nodi '*nid pawb sy'n cael amddiffyniad a gofal cyfartal*'⁷⁶. Gall y gwahanol fathau o drefniadau gofal (gofal gan berthnasau, gofal maeth, cartrefi gofal preswyl) arwain at wahanol brofiadau o ofal i bobl ifanc.

Gwrandawodd 'Care Review'⁷⁷ yr Alban ar brofiadau dros 5,500 o bobl, mwy na hanner ohonynt yn blant ac oedolion a fu 'mewn gofal'. Mae'n galw am ad-drefnu sut mae'r Alban yn meddwl, yn cynllunio ac yn blaenoriaethu ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r newid sy'n angenrheidiol wedi'i seilio ar bum colofn, Llais; Teulu; Gofal; Pobl; Sgaffaldiau⁷⁸.

Mae perthnasoedd yn sylfaenol bwysig i blant a phobl ifanc mewn gofal. Dywedodd plant a phobl ifanc oedd â phrofiad o ofal mai ansawdd y perthnasoedd yna oedd y ffactor a ddylanwadodd fwyaf ar eu bywydau o fewn a'r tu hwnt i'r 'system ofal'. Roedd rhai wedi cael trafferth creu a chynnal cyfeillgarwch yn yr un ffordd â phobl ifanc oedd ddim yn byw mewn gofal, ac roedden nhw'n beirniadu sut roedden nhw'n cael eu trin o'u cymharu â phobl ifanc eraill.

“ *Dyw'r bywyd normal mae pobl ifanc yn gallu cael ddim yn berthnasol i bobl ifanc mewn gofal. Dyw risg ddim yn cael ei reoli, mae'n cael ei osgoi.* ”
- Benyw ifanc, VOYPIC, Gogledd Iwerddon

“ *Alla i ddim aros yn nhŷ ffrind, mae angen caniatâd fy ngweithiwr cymdeithasol a gwiriad heddlu ar y rhieni lle bydda i'n aros, nid fel pobl ifanc arferol yn eu harddegau.* ”
- Benyw ifanc, VOYPIC, Gogledd Iwerddon

⁷⁵ VOYPIC NI: Children's Report to inform List of Issues Prior to Reporting (LOIPR) August 2020

⁷⁶ Ibid

⁷⁷ Independent Care Review Reports <https://www.carereview.scot/conclusions/independent-care-review-reports/>

⁷⁸ The Promise (2020) Independent Care Review https://www.carereview.scot/wp-content/uploads/2020/03/The-Promise_v7.pdf

Roedd gan bobl ifanc oedd â phrofiad o ofal brofiadau amrywiol o gefnogaeth. Mynegodd llawer o blant a phobl ifanc rwystredigaeth ynghylch y diffyg cefnogaeth roedden nhw wedi'i derbyn gan eu gweithiwr cymdeithasol.

“ *Rydw i mewn braw y bydd oedolion yn ffonio'r gwasanaethau cymdeithasol. Byddwn i'n llythrennol yn marw. Byddai'n gwneud pethau 100 waith gwaeth.* ”
- Person ifanc o grŵp Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cymru

“ *Dywedodd y gwasanaethau cymdeithasol fod gwiriad cartref i fod i ddigwydd bob 6 wythnos, ond wnaeth e byth. Mae angen iddyn nhw weithio gyda CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc) – nid y naill neu'r llall* ”
- Person ifanc o'r grŵp Ward Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl, Cymru

Mae plant yn dweud wrthyn ni ei fod yn anodd iddyn nhw pan fydd eu gweithwyr cymdeithasol yn newid yn aml. Mae'n golygu bod meithrin perthynas â rhywun yn anodd, a theimlo eu bod yn cael eu parchu.

“ *Gweithwyr cymdeithasol yn newid drwy'r amser, gorfod adrodd fy stori drosodd a throsodd.*⁷⁹ ”
- Benyw ifanc, Lloegr

Mae plant mewn gofal hefyd yn dweud wrthyn ni am yr anawsterau maen nhw'n eu hwynebu oherwydd bod prosesau biwrocrataidd yn eu hatal rhag gwneud pethau sy'n haws i blant eraill.

“ *Dim ond un peth sy'n wir yn fy ngwneud i'n grac, sef bod gweithwyr cymdeithasol yn methu dychwelyd llythyron i'r ysgol mewn pryd. Pan fydda i'n gofyn i ngweithiwr cymdeithasol alla i fynd ar drip, mae hi'n dweud bod rhaid iddi ofyn i'w bos, ond mae'n cymryd oesoedd, ac yna tro nesa bydda i'n gweld hi bydda i'n gofyn ydych chi wedi anfon y llythyrau neu beidio, ac mae hi'n dweud wi'n dal i orfod gofyn i'r bos... rydw i wedi gofyn i lawer o bobl sortio hyn, ond does dim byd wedi digwydd.* ”
- Person ifanc, Lloegr

Roedd gan rai brofiadau cadarnhaol o gefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol:

“ *Tra bod ni'n agored rydyn ni'n cael y gefnogaeth rydyn ni angen.* ”
- Person ifanc o grŵp 'Young Voices Speak Out', Cymru

⁷⁹ Ffynhonnell: ymgyrch IMO

Roedd pryder ynghylch pobl ifanc sy'n pontio o ofal i'r gymuned. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o blant ddim yn eglur ynghylch eu hawliau a'r pethau dylen nhw eu cael wrth adael gofal, a sut mae eu gwireddu a chael mynediad iddyn nhw. Mynegodd pobl ifanc bryderon ynghylch yr angen am fwy o gefnogaeth i ymadawyr gofal wrth iddyn nhw gyrraedd 18 oed a diogelwch gadael gofal a chael eu lleoli mewn llety anniogel fel Gwely a Brecwast.

“ *Ddylen nhw ddim bod mewn sefyllfa lle maen nhw mor agored i niwed.* ”
- Person ifanc, Llysgennad Cymunedol, Cymru

“ *Mae diffyg blaengynllunio a pharatoi ar gyfer mynd allan ar eich pen eich hun.* ”
- Benyw ifanc, VOYPIC, Gogledd Iwerddon

“ *Mae gorfod symud allan ar eich pen-blwydd yn 18 (pan fyddwch chi'n lled-annibynnol) yn gwbl annerbyniol. Tra bod fy holl ffrindiau'n cael parti, bydda i'n pacio i adael cartref. Gwnewch rywbeth am hyn!* ”
- Benyw ifanc, Lloegr

Mae ymchwil ddiweddar gan Gomisiynydd Plant Lloegr yn dangos bod nifer y plant mewn gofal, arddegwyr yn bennaf, sy'n cael eu lleoli mewn llety heb ei reoleiddio, fel mae'n cael ei alw, ar gynnydd.⁸⁰ Mae'r cynnydd yma yn y niferoedd oherwydd pwysau ar gyllidebau cynghorau, cynnydd yn nifer yr arddegwyr sy'n mynd i ofal, a diffyg lleoliadau addas. Y bwriad yw bod lleoliadau heb eu rheoleiddio yn garreg camu rhwng gofal a bywyd annibynnol oedolyn, ac maen nhw fel arfer yn cael eu defnyddio ar gyfer pobl ifanc 16 oed a throsodd, ond maen nhw'n amrywio o ran y math o lety.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant mewn llety heb ei reoleiddio yn fwy tebygol o brofi ansefydlogrwydd a newid lleoliad, ac yn fwy tebygol o fynd ar goll na phlant eraill mewn gofal. Rhannodd llawer o blant wybodaeth fod llety heb ei reoleiddio'n anaddas iddyn nhw, gan fod ganddyn nhw anghenion cymhleth nad oedd cefnogaeth ar gael ar eu cyfer. Ond roedd gan bobl ifanc brofiadau cadarnhaol a negyddol o lety heb ei reoleiddio:

“ *Roeddwn i'n byw mewn lleoliad lled-annibynnol gwahanol o'r blaen, ac roedd yn ofnadwy. Doedd gen i ddim perthynas dda gyda'r staff... doedden nhw ddim yn rhoi unrhyw gefnogaeth i fi, doeddwn i ddim yn teimlo bod gen i unrhyw beth. Weithiau doedd dim bwyd ac ati. Yma, pan fydda i'n gwario arian ar bethau dylwn i ddim, mae'r staff yn cadw golwg ar fy siopa i wneud yn siŵr bod gennym ni beth sydd ei angen.* ”
- Benyw ifanc, Lloegr

⁸⁰<https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/09/cco-unregulated-children-in-care-living-in-semi-independent-accommodation.pdf>

Rhannodd pobl ifanc brofiadau am gymorth ariannol sy'n araf yn cyrraedd, eu bod nhw ddim yn cael digon o lwfans, neu bod hynny'n cael ei wrthod yn llwyr. Soniodd eraill am eu profiadau o fod heb ddigon o fwyd i'w fwyta, arian i olchi dillad neu brynu gwisg ysgol, a sut mae eraill yn eu gweld nhw o ganlyniad.

Roedd stigma yn chwarae rhan hanfodol yn effaith heriau a chyfleoedd ar y rhai oedd mewn gofal ar unrhyw adeg benodol yn eu bywydau. Roedd yn cael ei drafod yng nghyswllt teulu, iechyd meddwl, hunaniaeth, lleoliad, tai, y gallu i greu a chynnal perthnasoedd, addysg, a chael mynediad i wasanaethau.⁸¹

“*Roeddwn i'n teimlo bod neb byth yn gwrando arna i. Ar adegau, roedd fel bod y panel plant neu waith cymdeithasol byth yn clywed fy marn pan oeddwn i'n ceisio mynegi sut roeddwn i'n teimlo am symud nôl mewn gyda mam. Roedden nhw wastod yn gwneud penderfyniadau heb ystyried sut roeddwn i'n teimlo am y peth.*”

- Person ifanc, yr Alban

Mae plant a phobl ifanc wedi mynegi pryder ynghylch gorfod gadael eu cartref maeth neu eu cartref plant ar fyr rybudd ac yn erbyn eu hewyllys. Mae plant a phobl ifanc yn teimlo nad yw eu barn a'u dymuniadau'n cael eu cymryd i ystyriaeth. Clywodd adroddiad diweddar “Pass the Parcel”⁸² Comisiynydd Plant Lloegr gan blant mewn gofal sut roedden nhw'n teimlo am symud o'u lleoliadau a chael eu lleoli tu allan i'r ardal.

“*Rwy'n teimlo fel parsel yn cael fy symud o gwmpas drwy'r amser.*”

- Benyw ifanc, Lloegr

“*Fe wnaeth fy ngweithiwr cymdeithasol fy ngollwng i yma a gyrru i ffwrdd.*”

- Benyw ifanc, Lloegr

“*Rydych chi'n colli popeth pan fyddwch chi mewn gofal.*”

- Person ifanc a leolwyd 8 awr o gartref, Lloegr

Gofalwyr Ifanc

Gall gofalwyr ifanc gael profiadau amrywiol, gyda chywiliad o deimladau cadarnhaol a negyddol. Roedd gofalwyr ifanc yn gyffredinol yn aml yn teimlo'n fwy cadarnhaol na negyddol am eu teimladau gofalu – sy'n arwydd bod gofalu yn gallu rhoi ymdeimlad o werth a gwydnwch i rai.⁸³

“*Ydy, mae'n anodd ymdopi fel gofalwr ifanc, ond rwy'n teimlo'n falch mod i'n gwneud yn siŵr bod fy nheulu'n iawn.*”

- Gofalwr ifanc, yr Alban

⁸¹ https://www.carereview.scot/wp-content/uploads/2020/07/ICR_Evidence_Framework_v2-1.pdf

⁸² <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2019/12/cco-pass-the-parcel-children-posted-around-the-care-system.pdf>

⁸³ <https://www.cypcs.org.uk/ufiles/CopingWithCaring.pdf>

“ Mae nhad yn gweithio cryn dipyn, a dyna pam mae gen i gyfrifoldeb mawr yn helpu i ofalu am mam, sydd ag epilepsi. Rydw i'n falch mod i wedi cyrraedd yr un man â'm ffrindiau ac yn gwneud yn dda, er gwaetha popeth rydw i wedi delio ag e. Y cyfan rydw i eisïau yw helpu gofalwyr ifanc eraill i gael y gefnogaeth maen nhw angen. ”

- Gofalwr ifanc gwryw, Gogledd Iwerddon

“ Dyw bod yn ofalwr ifanc ddim yn beth drwg. Os rywbeth, dyna sydd wedi creu'r person ydw i heddi. Falle bod y daith yn un anghonfensiynol, a bod yna lwybrau creigiog i ddod o hyd, ond fydden i ddim yn ei newid am y byd. ”

- Gofalwr ifanc benyw, Lloegr

Soniodd un arall am bwysigrwydd cefnogaeth cyfoedion:

“ Hoffi cymdeithasu â phobl yn yr un sefyllfa â fi. ”

- Gofalwr ifanc, Action for Children, Gogledd Iwerddon

Amgylchedd diogel

Yng Nghymru, nododd yr adroddiad 'Cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc'⁸⁴ fod diogelwch mewn teuluoedd a chymunedau yn cael ei drafod yn aml, gyda phlant iau yn sôn am rôl ganolog y teulu a chwarae diogel yn y gymuned. Mewn gwaith sydd i ddod gan swyddfa Lloegr, bu plant a phobl ifanc yn siarad ac yn meddwl llawer am beth mae teimlo'n ddiogel yn ei olygu iddyn nhw, beth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo bod nhw ddim yn ddiogel, a sut gallen nhw fod yn fwy diogel: ac roedd rhai plant wedi datblygu eu strategaethau eu hunain ar gyfer teimlo'n fwy diogel.⁸⁵ Mae plant yn meddwl am ddiogelwch i'w weld ar draws y pedair gwlad.

“ Fel arfer rwy'n rhoi fy allweddi [rhwng fy mysedd] ... rwy'n rhoi nhw fan hyn rhag ofn i rywbeth ddigwydd. ”

- Benyw ifanc, Lloegr

Ymatebodd un person ifanc i'r cwestiwn, "Ydych chi'n byw mewn amgylchedd diogel?"

“ Ydw ar y cyfan, ond mae pobl yn cael eu trywanu yn ein cymdogaeth ni. ”

- Person ifanc o Gyngor Hil Cymru

⁸⁴ <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/Three-Year-Plan-19-22.pdf>

⁸⁵ Gwaith i ddod, Comisiynydd Plant Lloegr

Mewn gweithdai gyda phobl ifanc BAME, roedd teimladau cymysg ynghylch diogelwch iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd.

“*...dyw llety/tai â chymorth ddim bob amser yn teimlo'n ddiogel lle rydw i'n byw, ond mae'r heddlu yn dod i roi stop ar ymladd.*”
- Person ifanc o'r Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuentid, Cymru

“*Does dim ots gan y cyngor am ein diogelwch na'n llesiant neu bydden nhw'n cael gwared o'r bobl sy'n cymryd cyffuriau yn y parc lle rydw i'n byw – dim ond yn [ardal o'r ddinas] mae hyn yn dderbyniol, tase fe'n digwydd mewn ardal fwy cefnog o [dinas], bydden nhw wedi gweithredu erbyn hyn.*”
- Person ifanc o ymateb i arolwg grŵp diddordeb arbennig, Cymru

Plant Carcharorion

Mae plant sydd ag aelod o'r teulu yn y carchar yn wynebu nifer o heriau, fel gorfod tyfu i fyny'n rhy gyflym, tyfu i fyny gyda thrais a delio gyda stigma a chadw cyfrinachau. Roedd ymdopi â'r materion hyn dros gyfnod hir yn y pen draw yn cael effaith negyddol ar eu llesiant emosiynol a chymdeithasol.⁸⁶

“*Pan fydd sefyllfa fel hyn gennych chi gartre, dydych chi ddim wir eisiau i bawb arall wybod amdano fe... Rydych chi jyst yn naturiol yn dysgu peidio â sôn wrth bobl. Rydych chi'n dod yn gyfarwydd â dweud celwydd, 'celwydd golau' gallech chi ddweud, a chuddio'r ffaith bod dad bant yn y carchar.*”
- Benyw ifanc, yr Alban

Plant sy'n anweledig mewn ystadegau ac i wasanaethau

Mae llawer o blant yn 'guddiedig' mewn ystadegau swyddogol – plant a all fod yn agored i niwed, nad yw eu hanghenion yn cael eu nodi na'u cydnabod mewn polisi, plant sy'n cael eu tynnu oddi ar y gofrestr neu eu haddysgu gartref⁸⁷, plant mae cefnogaeth CAMHS yn cael ei gwrthod iddyn nhw⁸⁸, plant sy'n cael eu hamddifadu o ryddid mewn lleoliadau sydd ddim yn ddiogel, a phlant cysylltiedig â gangiau nad oes unrhyw weithwyr proffesiynol yn gwybod amdanynt⁸⁹; nid oes neb o'r plant hyn i'w gweld mewn unrhyw ystadegau swyddogol.

“*Sut gall plentyn 14 oed fyw ar y strydoedd am flwyddyn a hanner? Ble roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol bryd ny? Pam daeth neb i nôl fi a rhoi fi mewn cartre gofal?*”
- Gwryw ifanc yn y system cyfiawnder ieuentid, Lloegr

⁸⁶ <https://www.familiesoutside.org.uk/content/uploads/2019/04/In-Brief-13-digital.pdf>

⁸⁷ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/skipping-school-invisible-children/>

⁸⁸ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/the-state-of-childrens-mental-health-services/>

⁸⁹ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/keeping-kids-safe/>

Achosion teulu

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau a gweithdrefnau Llysoedd Teulu yn straenus wrth natur. Nid bai'r plentyn na'r person ifanc sydd wedi dod â nhw yna, ond yn hytrach gwrthdaro rhwng rhieni neu'r ffaith bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o ddioddef niwed yng ngofal y rhieni.

Roedd pobl ifanc yn pryderu y gallai eu manylion personol – hyd yn oed petaen nhw'n ddienw – fod ar gael yn y cyfryngau prif ffrwd a chymdeithasol. Roedd pryder bod modd adnabod pobl (weithiau ar gam) ar sail yr wybodaeth a roddwyd, a bod cyfoedion wastod yn ceisio creu darlun cyflawn o'r wybodaeth yn y cyfryngau. Gallai hyn arwain at fwy o broblemau delio gyda sïon i bobl ifanc oedd wedi bod yn y Llysoedd Teulu.⁹⁰

“*Dim budd o gwbl... ymwithiol dros ben. Dyw'r materion ddim yn effeithio ar y cyhoedd mewn unrhyw ffordd – pam mae hyn yn digwydd? Pam mae pobl eisiau gwybod?*”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

“*Fyddden i ddim yn gyfforddus gyda hynny. Tasen i'n gwybod bod e amdana i, byddai pobl eraill agos a ddim mor agos hefyd yn gwybod bod e amdana i. Beth fyddai hynny'n ei olygu o ran fy nyfodol? Er bod yr erthygl ddim yn rhoi fy enw, fyddai ddim yn cymryd hir i bobl weithio fe mas.*”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

Plant â rhieni yn y lluoedd arfog

Mae teuluoedd y lluoedd arfog yn wynebu profiadau a heriau unigryw sy'n gallu effeithio ar bob aelod o'r teulu a'r teulu fel uned.

Bu ymgynghoriad â 115 o blant personél y lluoedd arfog yng Nghymru yn archwilio effaith gorfod symud tŷ ac ysgol yn rheolaidd, ac effaith anfon rhieni i fannau penodol. Roedd 41% yn gwneud sylwadau negyddol am adael ysgol, athro neu ffrindiau; 51% yn gwneud sylwadau negyddol am adael ffrindiau/teulu; a 62% yn gwneud sylwadau negyddol am eu hemosiynau (trist, dig). Yr ymateb mwyaf poblogaidd o ran y rhai oedd yn eu helpu i ddelio gyda'u hemosiynau pan fyddai eu rhieni'n cael eu hanfon i fannau penodol, ac wrth symud ysgol, oedd ffrindiau a phlant eraill o deuluoedd y lluoedd.⁹¹

Lleisiodd plant a phobl ifanc rai o'r mathau o bwysau maen nhw wedi'u profi ar berthnasoedd teuluol⁹²; ac adroddodd Comisiynydd Plant Lloegr⁹³ fod profiadau plant oedd yn tyfu i fyny yng nghyd-destun y lluoedd arfog yn wahanol i rai eu cyfoedion.

⁹⁰ [Advice of the Commissioner for Children and Young people, Northern Ireland to the Civil and Family Justice Review \(2016\)](#)

⁹¹ [https://www.sscwymru.co.uk/files/SSCE%20Cymru%20-%20Listening%20to%20our%20Service%20Children%20\(2020\)%20findings%20\(E\).pdf](https://www.sscwymru.co.uk/files/SSCE%20Cymru%20-%20Listening%20to%20our%20Service%20Children%20(2020)%20findings%20(E).pdf)

⁹² Tystiolaeth gan blant a phobl ifanc yn nheuluoedd y lluoedd arfog, Royal Caledonian Education Trust (RCET)

⁹³ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2018/06/KIN-AND-COUNTRY-Growing-up-as-an-Armed-Forces-child.pdf>

“

Dyw nhad braidd byth gartre, ac mae hynny wedi achosi problemau yn y gorffennol.

- Person ifanc, yr Alban

”

“

Gallu cael yr un berthynas gyda nhad â gyda mam.

- Person ifanc, yr Alban

”

“

Rydw i wedi symud bron bob dwy flynedd. Dwy erioed wedi gorffen mewn ysgol! ... Rydw i wedi symud llawer gyda'r teulu, fe symudais i o'r Almaen i Ogledd Iwerddon, o Ogledd Iwerddon i Loegr, felly rydw i wedi symud tŷ gymaint o weithiau.

- Benyw ifanc, Lloegr

”

“

Roedd nhad i ffwrdd am ddwy flynedd un tro ac fe aeth i Afghanistan hefyd, dim ond fi a Mam oedd yno cyn i mrawd ddod, a chafodd fy mrawd ei eni tra bod Dad yn dal i ffwrdd. Felly doedd ganddo fe ddim tad am chwe mis nes iddo fe ddod nôl.

- Gwryw ifanc, Lloegr

”

Er gwaethaf yr heriau, roedd plant yn teimlo'n falch o ymwneud eu rhieni â'r lluoedd arfog:

“

Mae'n galed pan fydd Dad yn mynd bant, ond mae clywed am ei waith yn fy ngwneud i'n falch dros ben. Rydw i'n hoffi dweud wrth bobl fod Dad yn y Llynges.

- Benyw ifanc, Lloegr

”

Diweddariad Covid

Bu plant a phobl ifanc yn rhannu eu meddyliau ynghylch bod gartref gyda'u teulu. Er bod rhai yn sôn am bethau difyr roedden nhw'n gwneud, ysgrifennodd eraill am ddadlau gyda'u teulu.

“ *Bod yn styc mewn un lle gyda phawb gartre'n dadlau trwy'r amser.* ”
- Gwryw ifanc, Lloegr

“ *Rhai o'r pethau rydw i wedi bod yn gwneud tra mod i ddim yn yr ysgol yw gwyllo Netflix i gyd a phob tiktok sy'n bodoli. Rydw i wedi dysgu sgiliau newydd fel coginio.* ”
- Person ifanc, Lloegr

Rhannodd pobl ifanc oedd yn byw mewn gofal mai 'diflas' oedd y disgrifiad mwyaf cyffredin o bell o deimladau pobl ifanc. Fel plant eraill, roedden nhw'n awyddus i'r cyfyngiadau symud lacio, ond yn derbyn yr amgylchiadau ar y pryd a phwysigrwydd aros mewn i amddiffyn eraill, er eu bod nhw'n blino ar y cyfyngiadau wrth i amser fynd heibio ac yn awyddus i weld eu ffrindiau.⁹⁴

“ *Nid dim ond pobl mewn gofal yw e, mae'n digwydd i bawb. Mae rhaid i chi jyst goddef y peth, ondoes?* ”
- Benyw ifanc yn byw mewn gofal, Lloegr

⁹⁴ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/2020/05/22/lockdown-experiences-young-people-in-childrens-homes/>

Anabledd, iechyd sylfaenol a lles

Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael eu cefnogi i gyflawni hyd eithaf eu potensial a sicrhau bod eu hiechyd a'u lles sylfaenol yn hollbwysig wrth gyflawni hynny. Mae plant a phobl ifanc yn wynebu llawer o heriau, gan gynnwys materion iechyd meddwl, tlodi a'r effaith ar eu safon byw. Mae plant ag anableddau yn wynebu heriau ychwanegol, ochr yn ochr â'r holl faterion eraill.

Plant ag Anableddau

Mae CCUHP yn cydnabod y ffaith bod plant anabl yn agored i niwed, ac yn tynnu sylw at y ffaith y dylen nhw fyw bywyd mor llawn â phosibl, a bod gofyniad i'r llywodraeth wneud popeth gallan nhw i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

Mynegodd pobl ifanc pa mor gadarnhaol y gall fod pan fydd gwasanaethau'n cydweithio neu pan fyddan nhw'n cael eu cefnogi yn y ffordd gywir:

“*Mae llawer o help yn yr ysgol. Gweithiwr Cymdeithasol da, sy'n barod i helpu ac yn cysylltu'n gyson, fel mod i wastod yn gwybod beth sy'n digwydd.*⁹⁵

- Person ifanc, Cymru

”

Dyweddodd pobl ifanc ag anableddau dysgu a'u rhieni a'u gofalmwyr wrthyn ni eu bod nhw am ymwneud yn fwy â chynllunio ar gyfer eu gofal eu hunain a'u bod nhw am i wasanaethau gydweithio.⁹⁶

Rhannodd pobl ifanc eu meddyliau hefyd y dylai pob plentyn a pherson ifanc fwynhau hawliau cyfartal, ond maen nhw'n codi pwyntiau am fynediad anghyfartal i drafnidiaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, a bod cael eu gwrando yn llai tebygol.⁹⁷ Soniodd plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau am oedi wrth gael mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol.

“*Rydw i wedi bod i mewn ac allan o'r ysbyty ar hyd fy mywyd, a chael dwy lawdriniaeth yn ddiweddar. Roedd yr aros yn wael iawn achos mod i'n methu ymdopi gyda sefyllfa o aros. Fe ges i'r llawdriniaethau i achub fy mywyd, sy'n beth mawr, ac yna fe lwyddais i wella llawer.*

- Person ifanc â SEND, Lloegr

”

⁹⁵ Adroddiad Paid dal yn ôl; Comisiynydd Plant Cymru, 2018

⁹⁶ Ibid

⁹⁷ MENCAP NI

Teimlai pobl ifanc nad oedden nhw bob amser yn cael eu gwrandio na'u cymryd o ddifri. Teimlai rhai, os oedd gennych chi anabledd dysgu, eich bod chi'n llai tebygol fyth o gael eich cymryd o ddifri neu gael oedolion yn gwrandio arnoch chi.

“

Fe wnaeth meddyg arall ffonio fi amdano fe ar ôl un o'r pethau e-ymgyngori yna, ac fe ffoniodd y meddyg arall yma fi, ac roeddwn i'n mynd yn fwy a mwy crac, achos doedd e ddim yn gwrandio ar unrhyw beth roeddwn i'n dweud.

- Person ifanc â SEND, Lloegr

”

Buon nhw'n rhannu, er bod y rhan fwyaf o blant yn cael cefnogaeth, bod plant anabl ddim yn cael digon o gefnogaeth a bod hynny ddim yn iawn. Roedden nhw'n argymhell y dylai'r llywodraeth wneud rhywbeth am hyn ar unwaith, fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad cyfartal i addysg a chyfle i gyflawni hyd eithaf eu potensial.

“

Mwy o swyddi i bobl ifanc. Mae'n anodd cael hyd i rywbeth sy'n iawn i chi. Mae angen mwy o gefnogaeth ar bobl i gael hyd i swyddi.

- Person ifanc, Mencap Gogledd Iwerddon

”

Roedden nhw'n meddwl dylai addysgwyr fod yn fwy ymwybodol o anghenion plant ag anableddau.

“

Addysgu athrawon a chynorthwywyr dosbarth i fod yn ymwybodol o anableddau dysgu a TG, er mwyn iddyn nhw fedru helpu disgyblion ag anabledd dysgu yn well.

- Person ifanc, Mencap Gogledd Iwerddon

”

Rhannodd un person ifanc eu bod wedi methu cael trafndiaeth i'r coleg. Fe gawson nhw lythyr yn dweud wrthyn nhw nad oedd ganddyn nhw hawl i drafndiaeth.

“

Maen nhw'n siarad â'r person yma fel plentyn, sy'n analluogol ac yn annynol. Gall pobl ag anabledd gael eu trin fel plentyn yn hytrach nag fel rhywun o'u hoed. Dylai rhywbeth gael ei wneud am hyn.

- Person ifanc, Mencap Gogledd Iwerddon

”

Dyweddodd pobl ifanc fyddar eu bod nhw ddim yn gwybod sut i gael cefnogaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl. Fe ddwedson nhw eu bod nhw'n gwybod sut i gael mynediad at fathau eraill o ofal iechyd, ond bod problemau weithiau wrth gael gafael ar y cyfieithwyr angenrheidiol.

“ Mae mynd at y Meddyg Teulu yn gallu bod yn anodd, achos weithiau dyw'r cyfieithydd ddim yn troi lan, sy'n golygu bod angen aildrefnu'r apwyntiad. Yn amlwg, dyw hynny ddim yn iawn, achos mae'n gallu effeithio ar fy iechyd. ”

- Person ifanc byddar, yr Alban

“ Roeddwn i'n anhwylyd, felly fe ffoniais i NHS24. Fe ofynnion nhw gwestiynau i fi dros y ffôn, ac roeddwn i'n methu clywed nhw'n iawn. Bu'n rhaid i fi ofyn i mam helpu, ond roeddwn i eisiau cael preifatrwydd a pheidio â'i chynnwys hi o gwbl. Ond roedd rhaid i fi wneud e, achos fel arall fyddwn i ddim wedi cael unrhyw help o gwbl. ”

- Person ifanc byddar, yr Alban

Iechyd Meddwl

Ar draws y pedair gwlad, nodwyd iechyd meddwl fel un o'r materion pwysicaf oedd yn destun pryder i bobl ifanc, gyda galwadau am fwy o gefnogaeth a gwell gwasanaethau. Roedd pobl ifanc yn yr Alban yn argymhell y dylai fod safon genedlaethol ar gyfer iechyd meddwl mewn mannau lle mae plant a phobl ifanc yn dysgu.

“ Yn fy mhrofiad i rydych chi'n cael cefnogaeth mewn argyfwng, nid cyn hynny... mae'n arbennig o anodd i fi fel person ifanc traws achos bod cyrraedd y clinig plant mor anodd. ”

- Person ifanc o grŵp LHDTC Ieuencid Cymru

Nododd pobl ifanc rwystrau, fel 'teimlo cywilydd', wrth gael mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl, achos eu bod nhw'n teimlo na allen nhw siarad â'u rhieni a bydden nhw ddim yn gwybod ble i droi i gael help.

“ Fe wnes i siarad ag athro unwaith am yr iselder roeddwn i'n teimlo ac roedden nhw eisiau troi popeth yn bositif. Doeddwn i ddim eisiau teimlo'n bositif, roeddwn i eisiau cael fy nghlywed. ”

- Person ifanc o grŵp Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cymru

“ ...yr un peth byddwn i'n ei newid yw'r stigma a'r stereoteip sy'n mynd law yn llaw â chael help ar gyfer iechyd meddwl, bod angen i chi fod yn berson ynysig neu'n hunan-niweidio neu wedi cael profiad bywyd ofnadwy i help gyda iechyd meddwl gael ei ystyried yn rhywbeth normal neu dderbyniol... ”

- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

Mae oedi difrifol yn y gwasanaethau iechyd meddwl a diffyg darpariaeth yn y gymuned, yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol fel problemau alcohol a chyffuriau neu anabledau dysgu/datblygiad.

“Roedd rhaid i'm rhieni frwydro'n galed i gael mynediad at wasanaethau perthnasol. Aeth 4 blynedd heibio cyn i mi weld rhywun oedd yn gallu helpu o'r diwedd. Roeddwn i'n teimlo, oherwydd mod i ddim yn dweud bydden i'n hunan-niweidio, fod gwasanaethau'n methu helpu – oni bai mod i'n cyrraedd y pwynt yna.

- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

“Doedd neb yn gwrandao o gwbl, fe wnaeth y seicolegydd dorri ar draws beth roeddwn i'n dweud a phenderfynu ar fy nhriniaeth ar sail pobl ifanc eraill fy oed i a'u profiadau a beth roedd hi'n meddwl fyddai'n addas ar gyfer fy OED, nid fy ANGHENION.

- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

Amlygwyd yr angen am fwy o gefnogaeth i iechyd meddwl a llesiant mewn ysgolion gan bobl ifanc oedd yn teimlo bod diffyg ymwybyddiaeth i ddisgyblion a staff a diffyg adnoddau ar gyfer cefnogi iechyd meddwl. Mewn arolwg diweddar yn Lloegr, lle gofynnwyd i bron 2,000 o blant beth hoffon nhw ei weld yn newid fwyaf i wella bywyd plant, dywedodd 43% o'r holl blant – yr ateb mwyaf cyffredin a ddewiswyd - “Bod pob plentyn yn gallu siarad â rhywun yn eu hysgol os oedden nhw'n teimlo'n bryderus neu dan straen, i'w helpu i ofalu am eu hiechyd meddwl.”⁹⁸

“Mae'n frwydr cael cefnogaeth gan ein hysgolion a mannau eraill, yn bennaf oherwydd diffyg arian a/neu adnoddau yn ein hardal.

- Person ifanc, ymateb arolwg grŵp diddordeb arbennig, Cymru

“Mae gwaith atal yn allweddol – ymyrryd cyn i'r sefyllfa fynd yn ddifrifol. Wedi cael fy nhroi i ffwrdd gan lu o wasanaethau am 'beidio â bod yn ddigon sâl'.

- Person ifanc o grŵp Ward Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl, Cymru

Roedd pobl ifanc yn meddwl y dylai fod mwy o hyfforddiant ac addysg i weithwyr proffesiynol fel eu bod nhw wedi'u paratoi i gefnogi plant a phobl ifanc.⁹⁹ Teimlai rhai pobl ifanc fod angen mwy o ymwybyddiaeth o anghenion iechyd meddwl pobl ifanc ymhlith y proffesiwn meddygol.

⁹⁸ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/03/cco-childhood-in-2020.pdf>

⁹⁹ <http://enoc.eu/wp-content/uploads/2019/06/ENYA-2018-recommendations-on-MH-pages-1-4.pdf>

“ *Rwy’n gwybod bod llawer iawn o bobl ifanc sydd â salwch meddwl neu broblemau iechyd meddwl. Mae rhai yn mynd mor bell nes cyrraedd yr adran Damweiniau ac Achosion Brys. Pan fyddan nhw’n cyrraedd, mae’r meddygon yn edrych ar unrhyw anafiadau corfforol blaenorol/difrifol y gallan nhw fod wedi’u dioddef o’r blaen, ond dydyn nhw ddim yn gwneud yr un peth o ran eu llesiant meddyliol. Er enghraifft, os yw person ifanc wedi ceisio niweidio’i hun, ond mae’r meddyg yn edrych ar anafiadau blaenorol/corfforol yn unig, heb edrych ar iechyd meddwl blaenorol tan yn ddiweddarach. Rwy’n credu tase meddygon yn gwneud yr un peth gyda llesiant meddyliol person ifanc gallai pethau fod yn llawer gwell i’r plant/bobl ifanc hynny mewn ysbytai.* ”

- Person ifanc, Mencap Gogledd Iwerddon

Mae gormod o bobl ifanc yn mynd i wardiau diogel, ymhell o’u cartrefi, yn cael eu hatal neu eu hynysu, heb eu trin ag urddas, ac yn gallu treulio misoedd a blynyddoedd o’u plentyndod yno. Fel y nodwyd yn adroddiad Still Waiting¹⁰⁰ Comisiynydd Gogledd Iwerddon, mae rhai plant yn dal i gael eu rhoi yn wardiau iechyd meddwl oedolion. Mae amrywiaeth o ffactorau sy’n arwain at y sefyllfa hon – fodd bynnag, mae diffyg ymyrraeth gynnar a darpariaeth annigonol yn y gymuned yn sicr yn cyfrannu ati. Er bod pobl ifanc o leoliad iechyd meddwl i gleifion mewnol wedi mynegi’r farn bod y gefnogaeth yn well unwaith roedden nhw yn y sefyllfa lle roedd angen cefnogaeth cleifion mewnol, roedd y profiad cyn cyrraedd y pwynt yma yn fwy negyddol.¹⁰¹

“ *Rhestrau aros hir – diffyg cyllid difrifol i’r gwasanaeth, dim digon o staff neu adnoddau.* ”

- Person ifanc, Cymru

“ *Mae unedau atgyfeirio, fel CAMHS, maen nhw’n wasanaeth iechyd meddwl adnabyddus, ac mae eu rhestr aros yn gallu bod yn fwy na chwe mis, wel sut gallwch chi wneud i blentyn aros am chwe mis i weld seiciatrydd neu feddyg, rydych chi jyst yn gwastraffu amser.* ”

- Person ifanc, Lloegr

“ *Tase CAMHS wedi bod yno nôl bryd hynny, fyddai neb ohonon ni yma.* ”

- Benyw ifanc ar ward iechyd meddwl, Lloegr

Mae rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn dioddef yn anghymesur yn sgîl problemau iechyd meddwl, gan gynnwys pobl ifanc LHDT. Yn yr Alban, er enghraifft, nododd 84% o bobl ifanc LHDT a 96% o bobl ifanc trawsrywedd eu bod wedi profi problemau iechyd meddwl.¹⁰²

¹⁰⁰ ‘STILL WAITING’ Rights Based Review of Mental Health Services and Support for Children and Young People in Northern Ireland Young Person’s Report September 2018

¹⁰¹ Cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, 2019-2022, Cymru

¹⁰² <https://www.lgbtyouth.org.uk/media/1354/life-in-scotland-for-lgbt-young-people.pdf>

Mae gofalwyr ifanc yn dweud bod gallu siarad â rhywun sy'n wir yn gwrando ac yn wir yn deall yn hanfodol. Mae cael digon o amser heb orfod gofalu i wneud pethau difyr fel mynychu grwpiau gofalwyr ifanc yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, mae problemau iechyd sy'n gysylltiedig â iechyd emosiynol a meddyliol yn cael eu codi'n amlach na phroblemau iechyd corfforol gan ofalwyr ifanc.¹⁰³

“*Mae addysg yn bwysig i wrthweithio stigma iechyd meddwl, ac mae angen hyfforddi pobl i adnabod yr arwyddion ac ymateb yn y ffordd gywir â'r gefnogaeth angenrheidiol.*”
- Gofalwr ifanc benyw, Gogledd Iwerddon

Tlodi

Roedd 4.2 miliwn o blant yn byw mewn tlodi yn 2019; rhagwelir y bydd yr argyfwng economaidd presennol yn codi'r nifer hwnnw i 4.5 miliwn¹⁰⁴¹⁰⁵. Plant sy'n byw mewn teuluoedd mawr sydd wedi dioddef yr ergyd fwyaf, yn rhannol oherwydd y cap budd-daliadau a'r terfyn dau blentyn.

“*Mae angen gweithredu ar unwaith i sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at gartref diogel, digon o fwyd, a dillad cynnes, addas. Nid galwadau anwedus yw'r rhain; dyma'r hanfodion o ran hawliau!!*”
- Benyw ifanc, Gogledd Iwerddon

Yng Nghymru mae teuluoedd yn siarad am blant a phobl ifanc yn colli eu hawliau dynol sylfaenol oherwydd eu bod yn byw mewn tlodi – gan gynnwys gallu fforddio bwyd iach, gwisg ysgol, cynnyrch hylendid, a chyfarpar ar gyfer yr ysgol.¹⁰⁶ Dywedodd teuluoedd wrthyn ni hefyd eu bod nhw'n colli cyfleoedd o ran chwarae, hamdden a gweithgareddau diwylliannol oherwydd diffyg cyfleusterau yn eu hardal, a chostau trafndiaeth. Mae plant yn sôn wrthyn ni am dlodi mewn gwahanol gyd-destunau. Mae rhai plant yn sôn wrthyn ni am eu tai, rhai plant yn dweud wrthyn ni eu bod nhw'n methu mynd ar drip ysgol, eraill yn dweud eu bod nhw weithiau'n llwglyd a rhai yn sôn am y rhaniad digidol – mae'r rhain i gyd yn faterion sy'n fwy tebygol o effeithio ar blant sy'n byw mewn tlodi.

“*Blaenoriaethu tlodi mislif nawr, achos o fis Ionawr 2020 – ymhen 2 fis – Gogledd Iwerddon fydd yr unig ranbarth yn y Deyrnas Unedig lle bydd merched ddim yn gallu cael cynnyrch mislif am ddim yn yr ysgolion.*”¹⁰⁷
- Benyw ifanc, Gogledd Iwerddon

¹⁰³ <https://www.cypcs.org.uk/ufiles/CopingWithCaring.pdf>

¹⁰⁴ <https://www.gov.uk/government/collections/households-below-average-income-hbai--2>

¹⁰⁵ <https://www.ippr.org/research/publications/estimating-poverty-impacts-of-coronavirus>

¹⁰⁶ Siarter ar gyfer Newid, Comisiynydd Plant Cymru

¹⁰⁷ [Children and Young People's Summit, NICCY, 2019](#)

“*Weithiau, pan oeddwn i’n ifancach, roeddwn i’n arfer eistedd yn y bath yn ystod y mislif achos bod dim padiau gen i. Byddwn i’n colli ysgol, a byddai fy mrawd yn dod â ngwaith cartre adre i fi, a dyna lle bydden i, jyst yn eistedd yn y bath.***”**

- Benyw ifanc, yn ymateb i Siarter ar gyfer Newid, Cymru

Mynegodd pobl ifanc oedd yn cyfranogi mewn astudiaeth gan y Senedd Plant bryderon ynghylch cost uchel bwyd a diod yn yr ysgol. Dywedson nhw fod hynny’n golygu eu bod nhw weithiau’n dal yn llwglyd ar ôl cinio. Amlygwyd prisiau uchel fel rheswm pam mae rhai plant yn gadael yr ysgol i brynu cinio rywle arall, gyda’r cyfranogwyr yn dweud eu bod nhw’n gallu cael mwy o fwyd am yr un pris. Yn aml, mae’r opsiynau rhatach hyn yn llai iach.¹⁰⁸

“*Ar gyfer prydau ysgol am ddim, dydw i ond yn cael £2.55 ar fy ngherdyn, felly alla i ddim fforddio llawer. Weithiau alla i ond cael sudd neu ddiod a byrbryd.***”**

- Person ifanc, yr Alban

“*Y cyfan allen i fforddio oedd un frechdan NEU ffrwyth a diod – byth pryd o fwyd.***”**

- Person ifanc, yn ymateb i Siarter ar gyfer Newid, Cymru

Bu Llysgenhaddon Ifanc yn yr Alban oedd yn gweithio gyda’r ymchwiliad dyfodol bwyd yn edrych ar y rhesymau pam roedd disgyblion ysgol yn dewis bwyta bwydydd afiach.¹⁰⁹¹¹⁰

“*Yn ein cymuned mae siopau cludfwyd blith draphlith ar hyd y strydoedd. Mae ganddyn nhw gynigion amser cinio arbennig i blant ysgol, ac maen nhw hyd yn oed yn cael eu hyrwyddo ar ein tocynnau bws.***”**

- Llysgennad Ifanc, yr Alban

Mae tlodi yn dal i greu rhwystrau o ran plant yn gallu cael mynediad i’w hawliau a’u mwynhau ym myd addysg. Soniodd plant am stigma byw mewn tlodi a chostau cudd mynd i’r ysgol. Nodwyd materion lle mae costau ysgol yn effeithio ar eu gallu i gael mynediad llawn i’r diwrnod ysgol, fel cost gwisg ysgol, teithio, adnoddau dysgu, bwyd, clybiau a thripiâu ysgol.¹¹¹

“*Os wyt ti’n dlawd, rwyd ti’n cefnu ar dy freuddwydion.***”**

- Person ifanc, yr Alban

¹⁰⁸ <https://www.childrensparliament.org.uk/wp-content/uploads/School-Food-CP-2018.pdf>

¹⁰⁹ <https://foodfoundation.org.uk/the-childrens-future-food-inquiry-final-report-is-here/>

¹¹⁰ Tackling fast food, Fixers workshop

¹¹¹ <https://cpag.org.uk/sites/default/files/Cost%20of%20the%20School%20Day%20Dundee%20-%20Full%20Report.pdf>

“ *Dyw pobl dosbarth gweithiol ddim bob amser yn cael yr un cyfleoedd.* ”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

Hefyd mae yna blant a phobl ifanc yn byw mewn amodau tai amhriodol, sy'n anniogel, yn frwnt neu'n rhy fach¹¹² fel Gwely a Brecwast a chynwysyddion llongau. Rhannodd un person ifanc oedd yn byw mewn cynhwysydd llong:

“ *Pan fyddwn ni'n cysgu, mae dŵr yn diferu arnon ni, a dydyn ni ddim yn hoffi hynny.* ”
- Benyw ifanc, Lloegr

Soniodd plant hefyd am sut roedd tlodi yn eu gwneud yn fwy agored i gael eu tynnu i mewn i ymddygiad troseddol.

“ *Tlodi yw'r prif reswm, ie, pam mae pobl yn ymwneud â phethau drwg ac ati. Felly dydw i ddim yn gwybod sut mae adeiladu mwy o glybiau pêl-droed a'r holl stuf yn mynd i stopio rhywun rhag bod yn dlawd, ydy e? Dyw e ddim. Mae angen arian, ondoes na? Dyna'r prif reswm pam mae pobl yn troseddu, ontefe, i gael arian?* ”
- Gwryw ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, Lloegr

Iechyd yr amgylchedd: Newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd ac ailgylchu...

Mae diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ynghylch y cysylltiadau niferus rhwng amgylchedd diogel, iach ar y naill law, a hawliau plant ar y llall. Mae hyn, ochr yn ochr ag ewyllys wleidyddol wan, yn cynrychioli rhwystr sylfaenol i barchu, diogelu a chyflawni hawliau plant yng nghyd-destun mesurau amgylcheddol.¹¹³

Canfu adroddiad diweddar ar ganfyddiad pobl ifanc ynghylch a oedd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn gofalu am yr amgylchedd mai 22% yn unig oedd yn meddwl eu bod yn gwneud gwaith da.¹¹⁴ Yn y cyd-destun hwn, dywedodd person ifanc yn Lloegr:¹¹⁵

“ *Dyw pobl jyst ddim yn credu [mewn newid hinsawdd], llawer o bobl. Ond nid llawer o bobl ifanc. Mae'n llawer o bobl hŷn.* ”
- Benyw ifanc, Lloegr

Mae llawer o faterion amgylcheddol a gafodd eu mynegi fel pryderon allweddol gan bobl ifanc. Yng Nghymru, cododd aelodau o'r paneli ymgynghorol a llysgenhadon myfyrwyr, a phobl ifanc mewn ymgynghoriadau wyneb yn wyneb i gyd bryderon amgylcheddol. Arweiniodd adborth gan bobl ifanc yn ystod yr ymgynghoriad ar Gynllun Corfforaethol NICCY at gynnwys amcanion amgylcheddol penodol yn y Cynllun Busnes. Yn Lloegr, yn ystod yr ymgynghoriad ar Gynllun Busnes 20/21, cododd yr Amgylchedd ar draws y

¹¹² <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/report/bleak-houses/>

¹¹³ <https://www.hrw.org/news/2020/07/01/realising-childrens-right-healthy-environment>

¹¹⁴ Our Young People: Perceptions of the Outcomes Framework, 2019 Young Persons' Behaviour & Attitudes Survey.

¹¹⁵ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/03/cco-childhood-in-2020.pdf>

grwpiau o blant buon ni'n siarad â nhw. Nododd plant nad yw pobl yn cymryd ailgylchu'n ddigon o ddifri a'u bod yn gollwng sbwriel. Pwysleisiodd plant bwysigrwydd "pobl oedd â phŵer" yn rhoi sylw i'r mater, hefyd:

“Rwy'n credu dylai'r holl bobl sydd â phŵer ddod at ei gilydd a gweithio ar y cyd i ddatrys y broblem.”

- Gwryw ifanc, Lloegr

Roedd ffyrdd mwy effeithiol o ailgylchu, teithio llesol a thaclo llygredd ymhlith y prif ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hyn, yn ôl yr hyn roedd plant a phobl ifanc yn dweud wrthyn ni. Mwy o wybodaeth am faterion amgylcheddol mewn ysgolion trwy wasanaethau boreol, pecynnau gwybodaeth, a chynnwys plant mewn gweithgareddau i 'wneud eu rhan'. Awgrymodd pobl ifanc yng Nghymru waharddiad ar blastig untro mewn ysgolion. Mae Senedd Ieuenctid Cymru hefyd wedi gwneud gollwng sbwriel a gwastraff plastig yn un o'i thair prif flaenoriaeth, ochr yn ochr â sgiliau bywyd yn y cwricwlwm, a chefnogaeth i iechyd emosiynol a meddyliol.

“Dyw hyn ddim yn mynd i fynd i ffwrdd ar ei ben ei hun, mae angen i ni drwsio fe a gwneud hynny'n gyflym. Allwn ni ddim fforddio oedi.”¹¹⁶

- Benyw ifanc, Gogledd Iwerddon

Diweddariad Covid

Mae'r mesurau a roddwyd ar waith gan y llywodraeth i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag pandemig COVID wedi cael effaith niweidiol ar eu hiechyd meddwl. Mae llawer o bobl ifanc yn pryderu am eu llesiant meddyliol eu hunain a llesiant pobl eraill.¹¹⁷

Oherwydd yr effaith ar wasanaethau cefnogi, mae'n debygol mai plant a phobl ifanc sydd eisoes ag anhawster iechyd meddwl fydd yn dioddef yr effaith fwyaf. Canfu arolwg gan YoungMinds¹¹⁸ o blant a phobl ifanc sydd wedi profi problemau iechyd meddwl, a gynhaliwyd yn ystod wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud ddiwedd mis Mawrth 2020, fod mwyafrif llethol (83%) yn teimlo bod y pandemig wedi gwneud eu hiechyd meddwl yn waeth. Canfu arolwg dilynol ym mis Mehefin/Gorffennaf fod 80% yn dweud bod y pandemig wedi gwneud eu hiechyd meddwl yn waeth, a dywedodd 41% ei fod yn "llawer gwaeth". Roedd llawer gwaeth wedi codi o 32% yn yr arolwg blaenorol.¹¹⁹

Nododd plant iau ddirywiad yn eu llesiant meddyliol. Mae plant yn teimlo'n fwyfwy unig ac yn llai sicr 'hyd yn oed os ydw i'n cael amser caled, mod i'n teimlo bydda i'n iawn'. Soniodd nifer sylweddol o blant am ffordd o fyw oedd yn ddisymud yn ystod y cyfnod clo, a gallai hynny gael effaith tymor hwy ar eu gweithgaredd corfforol, eu hiechyd a'u llesiant. O gymharu â grwpiau eraill, merched 12-14 oed oedd y mwyaf tebygol o deimlo wedi diflasu, yn unig, ac o ddweud eu bod nhw'n pryderu am lawer o bethau mewn bywyd, a phryderu am eu hiechyd eu hunain.¹²⁰

¹¹⁶ Children and Young People's Summit, NICCY, 2019

¹¹⁷ <https://www.youthlinkscotland.org/media/4486/lockdown-lowdown-final-report.pdf>

¹¹⁸ <https://youngminds.org.uk/about-us/reports/coronavirus-impact-on-young-people-with-mental-health-needs/>

¹¹⁹ <https://youngminds.org.uk/about-us/reports/coronavirus-impact-on-young-people-with-mental-health-needs/>

¹²⁰ <https://www.childrensparliament.org.uk/our-work/children-and-coronavirus/>

Roedd pobl ifanc anabl yn pryderu am eu diffyg mynediad at deulu a ffrindiau, i siopau a bwytai, ac i glybiau. Roedden nhw'n pryderu y gallai aelodau o'u teulu ddal y feirws. Roedden nhw'n edrych ymlaen at ddychwelyd i'r ysgol lle roedden nhw'n teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn.¹²¹

“Roedd yn frawychus achos bod pobl yn siarad amdano fe o mlaen i, ond ddim yn ei esbonio i fi. Roeddwn i'n pryderu am fy nheulu.”

- Person ifanc anabl, yr Alban

Mae rhai plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol wedi dweud wrthyn ni am eu brwydrau gyda'u haddysg yn ystod y cyfnod diweddar:

“Mae gen i ASD felly rydw i wedi stryglan bod heb ysgol yn sydyn a wynebu trefn wahanol. Rydw i'n pryderu am fynd nôl i'r ysgol. Dydw i ddim yn gwybod pwy fydd yno.”

- Person ifanc, ymateb i'r arolwg Coronafeirws a Fi, Cymru

“Rydw i wedi bod yn stryglan yn yr ysgol eleni oherwydd fy anawsterau dysgu ac alla i ddim dysgu gartre heb fy narpariaeth arbenigol. Rwy'n credu bydd angen i fi ailwneud eleni.”

- Person ifanc, ymateb i'r arolwg Coronafeirws a Fi, Cymru

Yn ystod y pandemig, bu hanner y plant a fu'n derbyn help fel ffisiotherapi cyn hynny yn gweld hynny'n stopio; stopiodd y gefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol (fel gofal seibiant a chynlluniau chwarae haf) ar gyfer llawer o deuluoedd yn ystod yr argyfwng. Dywedodd bron hanner y rhieni (45%) fod iechyd corfforol eu plentyn wedi dirywio.

“Mae gen i ADHD a dyspracsia ac rydw i wedi teimlo dan lot mwy o straen ac wedi ypsetio oherwydd mod i'n ynysig”

- Gwryw ifanc, Arolwg Straen mis Mehefin, Lloegr

Fodd bynnag, fe glywson ni hefyd gan blant a phobl ifanc oedd yn cael profiad y cyfnod clo yn fwy cadarnhaol:

“Rydw i wedi dysgu darllen, fues i'n stryglan oherwydd fy ADHD ac ASD, ond mae Mam wedi helpu fi a nawr rydw i ar lefel 6 o 'Oxford owl'”

- Person ifanc, ymateb i'r arolwg Coronafeirws a Fi, Cymru

¹²¹ Gweithdy Corseford School, Comisiynydd Plant Lloegr

Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol

Mae llawer o'r materion mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu o ran addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol yn cael eu hadleisio mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, gan adlewyrchu bylchau o ran cyfleoedd, cyrhaeddiad a gwybodaeth i blant a phobl ifanc o amrywiol gefndiroedd, diwylliannau, ethnigrwydd a galluoedd.

Anghydraddoldebau Addysgol

Ochr yn ochr â'r pryderon sylweddol parhaus a godwyd ynghylch cyllid annigonol i'r system addysg, fel yr amlygwyd, er enghraifft, yng nghyflwyniad Comisiynydd Gogledd Iwerddon i Ymchwiliad Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon i Gyllid Addysg¹²², mae'n eglur bod anghydraddoldebau amlwg o ran cyrhaeddiad ym myd addysg, a bod grwpiau penodol o blant a phobl ifanc yn fwy tebygol o wneud yn well neu'n waeth. Mae bwch cyrhaeddiad sylweddol yn parhau yn achos plant sy'n derbyn gofal; plant sydd â gweithwyr cymdeithasol; plant teithwyr; plant o leiafrifoedd ethnig; plant ag anabledd; plant ag anghenion ychwanegol a phlant o gefndir difreintiedig (er enghraifft plant sy'n cael prydau ysgol am ddim).

Teimlai rhai pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig nad oeddent yn cael yr un cyfleoedd wrth fynd i'r farchnad waith, gan fod disgwyl iddyn nhw weithio'n wirfoddol:

“Does gen i ddim swydd ond byddwn i wrth fy modd yn cael swydd a chael fy nhalu, yn hytrach na phobl yn dweud, o, mae rhaid i ti wneud gwaith gwirfoddol, byddai'n well gen i gael fy nhalu ac yna cael fy nhalu unwaith yr wythnos i wneud siopa, byddai'n well gen i gael fy nhalu na bod pobl yn dweud mae rhaid i ti wneud gwaith gwirfoddol, byddwn i'n dwlu cael fy nhalu.”¹²³

- Person ifanc â SEND, Lloegr

Amlygodd un person ifanc, a fu'n siarad ar y platfform IMO (In My Opinion)¹²⁴ ar-lein, ddiffyg dyheadau a disgwyliadau isel ar gyfer plant mewn gofal:

“Rydw i'n dal i feddwl bod dim uchelgais yn cael ei gynnig i'r bobl ifanc. Y diwrnod o'r blaen [...] fe welais i'r hysbysfwrdd yma o swyddi ar gyfer ymadawyr gofal, ac roedd yn cynnwys pethau fel: KFC. Dydw i ddim yn dweud bod dim o'i le ar hynny, ond pam doedden nhw ddim yn dweud pethau fel prifysgol? Fyddech chi ddim yn rhoi hwnna lan mewn ysgol, [...] felly pam mae e yno i ymadawyr gofal? Mae'n symbolaidd. [...] Pam rydyn ni'n methu anelu'n uwch na hynny?”

- Ymadawr gofal ifanc gwryw, Lloegr

¹²² <https://www.niccy.org/media/3116/niccy-submission-ni-affairs-committee-inquiry-into-education-spending-september-14-sept-18.pdf>

¹²³ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/03/cco-childhood-in-2020.pdf>

¹²⁴ <https://imohub.org.uk/>

Gwnaeth rhai o'r bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sylwadau ynghylch sut roedden nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu trin yn yr ysgol.

*“Faint o blant sydd â'u hathrawon yn gwybod am bob un peth maen nhw wedi'i wneud o le erioed? Mae'n embaras – does dim angen iddyn nhw wybod popeth am eich bywyd. Yna maen nhw naill ai'n trin chi fel rhyw fath o blentyn sy'n achosi trafferth neu'n teimlo trueni drosoch chi.”*¹²⁵

- Person ifanc â phrofiad o ofal, Gogledd Iwerddon

“Roedd blynyddoedd yr ysgol yn galed, dim cefnogaeth gan weithwyr cymdeithasol, byddwn i wedi hoffi newid ysgol, ond ches i ddim dewis.”

- Person ifanc â phrofiad o ofal, Include Youth, Gogledd Iwerddon

Mae pobl ifanc yn meddwl bod e'n bwysig i ysgolion wneud yn siŵr bod pawb yn deall anghenion cefnogi fel anableddau a materion iechyd meddwl ac ag agwedd gadarnhaol atyn nhw. Dylai athrawon gael hyfforddiant ar gynhwysiad a'r gwahanol fathau o anghenion cefnogi a all fod gan ddisgyblion a sut gallai hynny effeithio arnyn nhw yn yr ysgol. Dywedodd pobl ifanc ei fod yn wirioneddol bwysig i ysgolion wneud yn siŵr bod disgyblion ag anghenion cefnogi yn cael yr un cyfle â disgyblion eraill i leisio barn ar benderfyniadau.¹²⁶

“Rydyn ni eisiau cael ein gweld fel unigolion gyda'n set ein hunain o gryfderau a sgiliau unigryw.”

- Person ifanc, Llysgennad Cynhwysiad, yr Alban

Bu pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn archwilio'r ffaith eu bod yn cael trafferth sicrhau lleoedd ysgol wedi'u dyrannu ar brydiau. Roedden nhw'n cytuno, er bod y rhan fwyaf o blant yn cael cefnogaeth, 'fod plant anabl fel yna ddim yn cael cefnogaeth a bod hynny ddim yn iawn'. Rhannodd un person ifanc eu bod nhw wedi cael llythyr yn dweud wrthyn nhw bod dim hawl ganddyn nhw i gael trafndiaeth, oedd yn effeithio ar eu gallu i dderbyn eu haddysg. Roedden nhw'n argymhell y dylai'r llywodraeth wneud rhywbeth am hyn ar unwaith, fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad cyfartal i addysg a chyfle i gyflawni hyd eithaf eu potensial.¹²⁷

“Addysgu athrawon a chynorthwyywyr dosbarth mewn ymwybyddiaeth o anableddau dysgu a TG, fel eu bod nhw'n gallu helpu disgyblion ag anabledd dysgu yn well.”

- Person ifanc, MENCAP, Gogledd Iwerddon

Bu pobl ifanc yn rhannu meddyliau ynghylch sut mae ysgolion yn fwy addas ar gyfer un math penodol o ddysgwyr, a bod angen gwneud mwy i gefnogi pobl ifanc sy'n dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Roedden nhw'n meddwl bod 'gormod o ffocws ar ddysgu ar gyfer arholiad' yn hytrach na dysgu i ddatblygu a chasglu

¹²⁵ [Educational Inequalities and Inclusion Position Paper, NICCY \(2017\)](#)

¹²⁶ <https://reach.scot/pupil-voice/inclusion-ambassadors/>

¹²⁷ MENCAP, Gogledd Iwerddon

gwybodaeth. Fe wnaethon nhw nodi bod eu hathrawon yn aml yn pryderu mwy am beth fydd yn y prawf nag unrhyw beth arall.

“Weithiau rwy’n teimlo bod mwy o ffocws ar ddysgu ar gyfer arholiadau na deall y cynnwys.”
- Person ifanc, VOYPIC Gogledd Iwerddon

Nododd pobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon natur ddryslyd y systemau ysgol, gyda llawer o wahanol fathau o ysgolion.¹²⁸

“Mae gennym ni ormod o fathau o ysgolion, ond dim digon o fathau o ddysgu.”
- Person ifanc, VOYPIC Gogledd Iwerddon

“Mae angen annog mwy o ysgolion i gael eu hintegreiddio.”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

Roedd plant a phobl ifanc yn meddwl bod tlodi yn creu problemau o ran gallu plant i fwynhau eu hawl i gael addysg.

“Alla i ddim fforddio’r bws, felly rydw i jyst yn cerdded.”
- Person ifanc, yr Alban

Camwahaniaethu mewn ysgolion

Fel yr amlygwyd yn yr adran ‘Egwyddorion Cyffredinol’, mae llawer o blant mewn rhai grwpiau, gan gynnwys plant BAME, plant ag anghenion cefnogi ychwanegol a phlant LHDTRhC+ yn parhau i brofi camwahaniaethu a stigmatiddio. Dywedodd plant LHDTRhC+ eu bod yn ymwybodol o achosion lle roedd eraill wedi cael eu bwlio, ac adroddodd llawer fod y bwlio’n digwydd oherwydd cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd person.¹²⁹

Soniwyd am ysgolion yn arbennig fel elfen allweddol i hybu cydraddoldeb a lleddfu camwahaniaethu ar gyfer y bobl ifanc hyn.

Er enghraifft, dywedodd 79% o bobl ifanc LHDTRhC+ fod homoffobia yn dal yn broblem yn yr Alban, a dywedodd 85% fod trawsffobia yn dal yn broblem yn yr Alban.¹³⁰

¹²⁸ Ymgynghoriad Cynllun Corfforaethol NICCY, 2020-23

¹²⁹ <https://www.lgbtyouth.org.uk/media/1734/life-for-lgbt-young-people-in-dumfries-galloway.pdf>

¹³⁰ <https://www.lgbtyouth.org.uk/media/1354/life-in-scotland-for-lgbt-young-people.pdf>

“ *Fe ges i fy mwlio achos mod i'n treulio amser gyda bachgen oedd yn hoyw, felly dechreuodd pobl feddwl mod i'n hoyw.* ”
- Person ifanc, yr Alban

“ *Mae llawer o bobl rydw i'n eu nabod yn cael eu bwlio oherwydd bod nhw'n LHDTC+* ”
- Person ifanc, yr Alban

“ *Beth sy'n cael ei wneud i addysgu myfyrwyr ynghylch materion LHDTC? Yn aml mae geiriau garw, jôcs agored a rhagfarn noeth yn cael eu gadael yn llonydd a'u taflu o gwmpas oherwydd bod plant yn cael honni bod pethau felly'n "jôcs diniwed" a "bach o hwyl" tra bod y dioddefwyr yn cael eu hystyried yn rhy sensitif.* ”
- Person ifanc o grŵp LHDTC leuenctid Cymru

Gall pobl ifanc BAME brofi hiliaeth yn yr ysgol ac yn y gymdeithas ehangach, a does ganddyn nhw fawr ddim hyder y bydd digwyddiad hiliol yr adroddir amdano yn cael triniaeth briodol. Ar adegau mae pobl ifanc BAME yn teimlo ei fod yn haws iddyn nhw ddychmygu bod sylw hiliol wedi cael ei gamglywed neu heb ei fwriadu 'yn y ffordd yna', yn hytrach na chodi'r mater gyda'r person a wnaeth y sylw.¹³¹

“ *Camwahanïaethu mewn ysgolion oherwydd cefndir, gwlad enedigol, aflonyddu a chamdriniaeth gan blant eraill yn gweiddi 'Cer nôl i dy wlad dy hun'....dydyn ni ddim yn trystio'r athrawon i roi gwybod am bethau fel camwahanïaethu a bwlio gan fod pethau heb gael eu cymryd o ddifri o'r blaen.* ”
- Person ifanc, o'r Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig a leuenctid, Cymru

“ *Maen nhw'n galw "tremptyn brwnt" arnon ni... ac maen nhw'n gofyn i bobl ifanc "ydy pawb ohonoch chi'n lladron? Ydych chi'n byw mewn tŷ?"...Mae rhai pobl yn gwneud i fi deimlo mod i ddim eisiau bod yn un.* ”
- Person ifanc o grŵp Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cymru

“ *Mae plant o leiafrifoedd ethnig yn dioddef camwahanïaethu, yn yr ysgol, yn y gymdeithas, a hyd yn oed wrth fynd at y meddyg.* ”
- Person ifanc, ymateb i arolwg grŵp diddordeb arbennig, Cymru

¹³¹ <https://interculturalyouthscotland.org/in-sight-report>

Dywedodd y bobl ifanc hyn wrthyn ni fod angen mwy o hyfforddiant ar athrawon i adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau hiliol a throseddau atgasedd, ac y dylai hyfforddiant tuedd anymwybodol fod yn orfodol, gan eu bod nhw heb fawr ddim hyder y bydd rhoi gwybod am ddigwyddiad hiliol yn arwain at ymateb priodol.

“*Ches i ddim cydymdeimlad, y cyfan ddywedodd yr athro oedd, ‘Beth wyt ti eisiau i fi wneud am y peth?’*”
- Person ifanc BAME, yr Alban

Maen nhw’n teimlo bod eu profiadau bywyd ddim yn cael eu hadlewyrchu yn y pynciau sy’n cael eu dysgu yn yr ysgol.¹³²

“*Dylen ni gael ein haddysgu am Hanes Pobl Ddu a diwylliannau pobl eraill, yn hytrach na’r Ddau Ryfel Byd.*”
- Person ifanc BAME, Gogledd Iwerddon

Teimlai pobl ifanc y gallai’r ysgol ddarparu mwy o gyfleoedd i ddysgu am hanes Cymru neu Brydain o safbwynt pobl oedd ddim yn wyn:

“*Rydyn ni’n cael gwersi LHDTTC a hanes pobl ddu, ond does neb yn ein dysgu am hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dim hyd yn oed fel rhan o’r Ail Ryfel Byd lle bu cynifer farw. Soniwyd dim am hynny yn fy nosbarth.*”
- Person ifanc o grŵp Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cymru

“*Rydw i’n teimlo bod y pynciau dosbarth yn trafod diwylliant Ewrop yn bennaf, nid diwylliannau eraill.*”
- Person ifanc BAME, yr Alban

Llesiant

Bu rhai pobl ifanc yn rhannu eu meddyliau ynghylch diffyg cefnogaeth i lesiant yn yr ysgol.

“*Ym Mlwyddyn 7 mae pawb yn hapus, erbyn Blwyddyn 8 mae pawb yn dechrau suddo i iselder, erbyn Blwyddyn 9 rydych chi’n sylweddoli bod pethau’n mynd yn waeth. Ym Mlwyddyn 9 [maen nhw’n] rhoi gwaith cartref 3 gwaith yr wythnos ar gyfer 9 pwnc gwahanol. Mae mwy o ots gan ysgolion am raddau nag am ein lesiant ni.*”
- Gwryw ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig, Lloegr

¹³² Ibid

Rhannodd pobl ifanc yng Nghymru¹³³ mai profion (yn achos plant 7-11 oed) a gwaith ysgol/arholiadau ymhlith plant hŷn oedd y peth roedden nhw'n poeni fwyaf amdano. Adlewyrchwyd hyn ar draws y pedair gwlad.¹³⁴

“ *Gormod o ffocws ar ddysgu ar gyfer arholiad yn hytrach na dysgu i ddatblygu a chasglu gwybodaeth.* ”
- Person ifanc, MENCAP Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, lle mae llawer o bobl ifanc yn sefyll prawf trosglwyddo ar ôl y cynradd.¹³⁵

“ *Cael gwared o'r 11+ a'r holl brofion mynediad oherwydd maen nhw'n achosi gormod o bwysau.* ”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

Addysg hawliau plant

Ar draws y pedair gwlad, mae gwahanol lefelau o ymwybyddiaeth o hawliau plant ymhlith plant a phobl ifanc. Mae gan swyddfa pob Comisiynydd raglenni cynyddu ymwybyddiaeth wedi'u cyfeirio at blant a phobl ifanc (yn ogystal â rhieni / gwarcheidwaid / gweithwyr proffesiynol), yn ogystal â chefnogi sefydliadau eraill i hybu hawliau plant.

“ *Rydw i'n dysgu am hawliau yn yr ysgol ac yn Mixtup ac rwy'n codi llais dros eraill.* ”
- Person ifanc o grŵp Mixtup, Cymru

Mewn trafodaeth rhannodd rhai pobl ifanc eu bod nhw ddim wedi clywed am eu hawliau.

“ *Dylai fod mwy o ymwybyddiaeth o hawliau plant fel bod pobl ifanc yn gallu gwybod ydy eu hawliau'n cael eu torri, dylai hawliau ddilyn ymlaen i fywyd y cartref, a dylai mwy o hawliau gael eu hintegreiddio i fywyd yr ysgol.* ”
- Person ifanc, Llysgennad Myfyrwyr, Cymru

“ *Dylai mwy o bobl fod yn ymwybodol o'u hawliau a dylai mwy gael ei wneud i gael mynediad i'ch hawliau a gwneud yn siŵr bod gennych chi fynediad i'r hawliau yma. Wrth ddysgu am hawliau yn yr ysgol dylai fod yn fwy manwl ac yn cael ei gyflwyno'n well i blant a phobl ifanc.* ”
- Person ifanc o Gyngor Hil Cymru

¹³³ Ymateb i arolwg Beth Nawr

¹³⁴ [Educational Inequalities and Inclusion Position Paper, NICCY \(2017\)](#)

¹³⁵ Pan gafodd yr 11+ ei ddileu yng Ngogledd Iwerddon, cafodd ei ddisodli gan ddau brawf trosglwyddo gwahanol, a elwir yn gyffredinol yn AQE a GL. Defnyddir canlyniadau'r profion yn feini prawf ar gyfer derbyn i ysgolion gramadeg. Mae rhai ysgolion gramadeg yn derbyn y naill brawf neu'r llall, ond mae'r mwyafrif yn defnyddio un neu'r llall.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Roedd pobl ifanc yng Nghymru yn meddwl bod modd gwneud gwell defnydd o fewn y cwricwlwm, e.e. Addysg Bersonol a Chymdeithasol, ac roedden nhw'n teimlo bod cyfleoedd yn cael eu colli i ddysgu am CCUHP, Iechyd Meddwl a sgiliau bywyd:

“*Dylen nhw ddweud mwy wrthyn ni amdanyn nhw mewn dosbarthiadau ABCh a dosbarthiadau Sgiliau, ond dydyn nhw ddim... maen nhw jyst yn disgwyl i chi wybod.*”
- Person ifanc o'r grŵp Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cymru

“*Mewn dosbarthiadau fel PHSE, dylai disgyblion gael eu dysgu pam dylen nhw fod yn ystyriol at bobl sydd heb gymaint o arian neu sy'n mynd trwy amser caled gartre.*”
- Person ifanc, yr Alban

Sgiliau bywyd¹³⁶ oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd pan ofynnwyd i bobl ifanc beth hoffon nhw ddysgu mwy amdano yn yr ysgol. Roedd hefyd yn un o dair prif flaenoriaeth a nodwyd gan Senedd Ieuencid Cymru yn 2019. Roedden nhw'n meddwl y byddai'n dda dysgu am sgiliau fel rheoli eu materion ariannol er mwyn bod yn barod ar gyfer bywyd oedolyn, neu sut i gychwyn busnes. Roedd galwad hefyd am ystod ehangach o gyfleoedd addysgol.

“*Dylen ni ddysgu am sgiliau mecanig a thrafod â llaw, sgiliau iechyd a harddwch a chymorth cyntaf – meddyliol a chorfforol.*”
- Person ifanc, Cymru

“*Byddwn i'n hoffi dysgu am y pynciau sy'n berthnasol i fi ar ôl gadael yr ysgol, er enghraifft sut i ddelio gydag arian, treth ac ati.*”
- Gwryw ifanc, Cymru

¹³⁶ Ymatebydd i arolwg Beth Nawr

Gwahardd ac Ynysu

Mae cyfraddau cynyddol gwahardd o ysgolion a defnyddio ynysu, yn arbennig yn achos plant ag Anghenion Addysgol Arbennig, yn dal yn her sylweddol wrth geisio sicrhau bod hawl pob plentyn i gael addysg yn cael ei gwireddu. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant sydd eisoes wedi teimlo effaith diffyg cyllid AAA (SEN)¹³⁷.

Rhannodd un person ifanc eu meddyliau ynghylch ynysu:

“*Ond sut rydych chi i fod i ddatrys problem trwy ynysu plentyn? Wnaeth neb eistedd lawr gyda ni. Byddai [merch arall] yn cytuno â fi ar hyn, wnaeth neb eistedd ni lawr yn yr ysgol a dweud, “Iawn, beth yw’r broblem, pam dydych chi ddim eisiau dod mewn?”*

- Benyw ifanc, Lloegr

”

Mae gwaharddiadau ffurfiol ac anffurfiol (gan gynnwys ‘tynnu plant oddi ar y gofrestr’ i gael addysg gartref a chyfyngu ar amserlenni) ar gynnydd ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar blant ag anghenion arbennig sydd eisoes yn fwy agored i niwed.

Er bod union nifer y bobl ifanc sy’n cael addysg gartref yn anhysbys¹³⁸, rhannodd rhai pobl ifanc eu meddyliau am addysg gartref. Er bod rhai plant yn cael profiadau cadarnhaol iawn, rhannodd eraill eu profiadau negyddol.¹³⁹

“*Am ryw wyth mis... [roeddwn i’n cael addysg gartref] a doeddwn i byth yn gweld fy ffrindiau. Doedd gen i ddim ffrindiau yn llythrennol am oesoedd... roeddwn i’n arfer smygu drwy’r amser.*

- Person ifanc oedd yn cael addysg gartref, Lloegr

”

¹³⁷ Yn yr Alban, ‘Additional Support Needs’ (ASN) yw’r derminoleg sy’n cael ei defnyddio (nid SEN)

¹³⁸ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2019/02/cco-skipping-school-invisible-children-feb-2019.pdf>

¹³⁹ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/about-us/corporate-governance/business-plan-2018-19/>

Chwarae a Hamdden

Mae plant wedi dweud wrthyn ni pa mor bwysig yw eu bod nhw'n gallu chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.¹⁴⁰ Fodd bynnag, dyw mynediad at chwarae ddim yr un mor bosibl i bob plentyn, ac mae rhai plant yn teimlo eu bod yn colli cyfle.

Mae mynediad at wasanaethau yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw, trafndiaeth ac arian. Soniodd pobl ifanc am effaith y torri nôl ar wasanaethau ieuenctid cyffredinol. Myfyriodd pobl ifanc oedd â phrofiad o ofal ar sut gall newidiadau i leoliadau effeithio ar glybiau a chyfleoedd.¹⁴¹ Mae plant BAME yn llai tebygol o gael mynediad i fannau yn yr awyr agored na rhai o gefndir gwyn. Mae plant sy'n byw mewn tldi hefyd yn cael llai o fynediad i fannau yn yr awyr agored.¹⁴²

“

*Alla i ddim fforddio talu am y clybiau, felly
rwy'n dymuno bod yna rai am ddim.*

- Person ifanc, Lloegr

”

“

*Mae rhai o'r pethau sy'n hwyl yn ddrud ac alla i
ddim wastod fforddio hynny.*

- Person ifanc, Lloegr

”

Codwyd nifer o wahanol faterion gan blant iau a hŷn yng nghyswllt hamdden a chwarae, gan gynnwys dim gweithgareddau i blant hŷn, mynediad mewn ardaloedd gwledig, offer oedd yn hen ac wedi torri, a pheidio â chynnwys plant wrth greu gweithgareddau hamdden:

“

*Does dim byd ar gael i ni'r rhai hŷn. Mae'r cyngor yn gwerthu pethau
mlaen achos bod nhw'n methu eu fforddio.*

- Person ifanc, Adroddiad Siarter ar gyfer Newid, Cymru

”

“

*Roedd rolau rhywedd yn golygu bod dim llawer o amser rhydd, achos bod
rhaid glanhau, gwarchod plant – mae gweithgareddau'n costio arian ac
rydyn ni'n byw mewn cymuned wledig, felly dyw e ddim yn hawdd cael
mynediad i weithgareddau, mae llawer o'r bechgyn yn paffio yn y clwb.*

- Person ifanc o grŵp Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cymru

”

“

*Byddwn i'n mynd i'r parc, ond mae llawer o'r offer wedi torri, yn hen,
mae'r caetsys [chwaraeon] yn aml yn llawn.*

- Person ifanc, Lloegr

”

¹⁴⁰ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2018/08/Play-final-report.pdf>

¹⁴¹ <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/A-Charter-for-Change-Protecting-Welsh-Children-from-the-Impact-of-Poverty.pdf>

¹⁴² <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/oneineightbritishhouseholdshasnogarden/2020-05-14>

“ *Gall y cyngor greu prosiectau ar gyfer parciau a chael eu holl syniadau gan blant.* ”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

Rhannodd rhai pobl ifanc eu bod nhw ddim bob amser yn teimlo'n ddiogel pan fyddan nhw allan:

“ *Dydyn nhw ddim yn gosod rhwystrau beiciau modur, felly mae'r beiciau modur yn mynd yno, a gallen nhw anafu plentyn oherwydd bod mannau chwarae i blant, a does dim camerâu na dim byd felly.* ”
- Benyw ifanc, Lloegr

Rhannodd un person ifanc yng Ngogledd Iwerddon bryderon fod ymladd neu derfysgaeth yn gallu bod yn broblem sy'n golygu bod chwarae tu allan yn beryglus, ond nododd:

“ *...ond mae rhai plant eisiau mynd i'r terfysgoedd, achos iddyn nhw mae'n hwyl ac yn gyffrous.* ”
- Gwryw ifanc, Gogledd Iwerddon

Diweddariad Covid

Cafodd yr holl ysgolion eu cau mewn ymateb i bandemig COVID-19 a symudodd y dysgu ar-lein. Mae profiad cau ysgolion wedi cael effaith wirioneddol ar addysg a llesiant plant. Mae rhai ysgolion wedi rhagori wrth gyflwyno dosbarthiadau, gan gadw mewn cysylltiad â rhieni a phlant, a darparu cefnogaeth hanfodol i bob plentyn. Roedd profiadau plant yn gymysg. Yn ystod y pandemig, soniodd plant am eu profiadau dysgu; mynegodd llawer eu bod yn gweld eisiau'r ysgol ac yn cael anhawster dysgu gartref, ac roedd rhai'n teimlo eu bod yn methu ymdopi â'u llwyth gwaith.

“ *Faint o waith ysgol sydd wedi cael ei osod i fi ar-lein heb gefnogaeth athrawon. Mae meddwl am gynlluniau academaidd i'r dyfodol fel prifysgol yn fy rhoi dan straen, a does gen i neb i drafod y peth gyda nhw. Rydw i wedi cael trafferthion iechyd meddwl ac mae'n anodd cael cefnogaeth.* ”
- Benyw ifanc, Lloegr

Ymhlith y bobl ifanc 12-18 oed a ymatebodd i'r arolwg Coronafeirws a Fi¹⁴³, y pryder mwyaf cyffredin ynghylch addysg oedd colli tir yn eu dysgu (54%), ac yn dilyn hynny roedd colli profiadau roedden nhw'n edrych ymlaen atyn nhw (53%), a phryderon ynghylch sut gallai'r cyfnod clo effeithio ar eu canlyniadau arholiad (52%).

Gall plant agored i niwed, fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, gael trafferth ailintegreiddio i'r dosbarth ar ôl cyfnod hir i ffwrdd, pan fydd trefn ddyddiol newydd i ddod yn gyfarwydd â hi.

¹⁴³ https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_EN.pdf

“ *Oherwydd bod yr ysgol wedi cau rydw i'n colli llawer iawn o addysg sy'n gallu fy mharatoi ar gyfer yr ysgol uwchradd a bywyd yn nes ymlaen. Mae hynny'n golygu mod i'n teimlo mod i heb baratoi, a ddim yn barod ar gyfer y daith sydd o'm blaen.* **”**

- Benyw ifanc, yr Alban

Cafodd hyn effaith ar lawer o blant oedd 'yn y cyfnod clo' ac yn dysgu gartref. Yn ystod y tri mis pan oedd plant yn dysgu gartref bu gostyngiad yn nifer y plant oedd yn dweud eu bod nhw'n cael dewis beth roedden nhw'n ei ddysgu, a dywedodd mwy na hanner eu bod nhw wedi diflasu.¹⁴⁴

“ *Peth arall sydd ddim yn dda yw mod i ddim yn dysgu unrhyw beth newydd. Mae'r cyfan fwy neu lai yr un fath bob dydd.* **”**

- Gwryw ifanc, yr Alban

Technolegau Digidol

Amlygwyd y rhaniad digidol gan y pandemig, pan oedd plant i fod i wneud eu gwaith ysgol gartref. Amlygodd y pandemig anghydraddoldebau sy'n bodoli o amgylch mynediad at dechnolegau digidol. Eitemau cysylltiedig â TGCh oedd yr adnodd oedd ar goll amlaf ymhlith disgyblion ysgol uwchradd.¹⁴⁵

Yn y Deyrnas Unedig, amcangyfrifir bod 9% o deuluoedd heb liniadur, tabled neu gyfrifiadur pen desg yn y cartref.¹⁴⁶ Er bod y llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cychwyn cynlluniau i ddarparu gliniaduron ar gyfer plant, roedden nhw ymhell o fod yn ddigon i sicrhau bod pob plentyn yn gallu elwa o'r cynllun.

“ *Mae'n straen ofnadwy gorfod dysgu eich hunan a does gen i ddim gliniadur na di-wifr da gartre, sy'n golygu mod i'n cael trafferth mawr fel myfyriwr lefel A.* **”**

- Benyw ifanc, Cymru

Rhannodd rhai pobl ifanc ag anableddau fod hyn wedi effeithio ar eu haddysg a bod ysgol a choleg ar-lein yn anodd.¹⁴⁷

“ *Mae fy nghwrs yn ymarferol, rydw i i fod yn dysgu am arlunio a phethau eraill rydych chi'n methu gwneud ar-lein, fe ges i drafferthion mawr.* **”**

- Person ifanc, MENCAP Gogledd Iwerddon

¹⁴⁴ <https://www.childrensparliament.org.uk/our-work/children-and-coronavirus/>

¹⁴⁵ <https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/The-cost-of-learning-in-lockdown-Scotland-FINAL.pdf>

¹⁴⁶ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0030/198138/tech-tracker-internet-and-device-access-children-data-tables.pdf

¹⁴⁷ MENCAP NI

Rhannodd pobl ifanc eraill:

“ Mae angen cyfrifiadur arna i ar gyfer fy aseiniad. Mae pump ohonon ni'n rhannu un cyfrifiadur yn fy nheulu i. ”

- Benyw ifanc, yr Alban

“ Dyw'r gliniadur ddim yn gweithio'n dda iawn. Does gen i ddim argraffydd i brintio pethau. ”

- Gwryw ifanc, yr Alban

Nododd eraill oedd yn byw yng nghefn gwlad fod cael mynediad i'r rhyngwrwyd yn gallu bod yn broblem go iawn wrth i'r ysgol fynd ar-lein ac wrth gymdeithasu, ac amlygu y byddai pobl heb fynediad i'r rhyngwrwyd wedi cael anawsterau mawr yn ystod y cyfyngiadau symud. Dywedodd un person ifanc oedd wedi aros mewn gwesty gyda'i deulu yn ystod y cyfnod clo wrthyn ni ei fod heb ddyfais am dri mis, a dim mynediad i'r rhyngwrwyd, a'i fod o ganlyniad yn teimlo ei fod wedi colli tir yn ei addysg.

“ Roedd diffyg cefnogaeth yn yr ystyr bod fy ysgol ddim hyd yn oed yn gallu sicrhau dyfais i fi fedru gwneud y gwaith ysgol; a'r ffaith bod gennym ni ddim hyd yn oed unrhyw ryngwrwyd. ”

- Gwryw ifanc oedd wedi treulio'r cyfnod clo gyda'i deulu mewn gwesty, Lloegr

Roedd pobl ifanc mewn gofal hefyd yn meddwl fel hyn, ymhell cyn y pandemig presennol:¹⁴⁸

“ Rwy'n meddwl bod e'n bwysig bod y Comisiynydd Plant yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o bobl ifanc mewn gofal fynediad i'r rhyngwrwyd. ”

- Person ifanc, Lloegr

Arholiadau

Mae pobl ifanc yn arbennig wedi teimlo eu bod nhw heb gael cyfle i leisio barn ar benderfyniadau a wnaed ynghylch eu haddysg, yn enwedig o ran canslo arholiadau 2020.¹⁴⁹

“ Erthygl 12, yr hawl i gael fy nghlywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnaf fi. Dyna rywbeth gafodd pobl ifanc ddim llawer o gyfle i roi eu barn arno, canslo'r arholiadau. ”

- Benyw ifanc, yr Alban

“ Dwi'n grac – rydw i wedi gwneud cymaint o ymdrech ar gyfer yr arholiadau hyn, ac mae'r cyfan wedi bod yn wastraff. ”

- Benyw ifanc, Cymru

¹⁴⁸ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/05/CCO-Business-Plan-2017-18.pdf>

¹⁴⁹ CYPSC Young Advisers Group

Mynegwyd pryder mewn perthynas â'r sefyllfa ddiweddar lle mae graddau a ragfynegwyd wedi cael eu defnyddio yn lle arholiadau oherwydd cyfyngiadau'r Coronafeirws. Roedden nhw'n teimlo bod hon yn enghraifft o beidio â rhoi ystyriaeth briodol i'w hawliau gan lunwyr penderfyniadau. Yn benodol, roedd disgyblion yn pryderu ynghylch tueddiadau athrawon yn achos graddau a ragfynegwyd ac asesiadau athrawon.

Mae lledaeniad Covid-19 wedi troi sbotolau hefyd ar ganlyniadau niweidiol y system profion trosglwyddo heb eu rheoleiddio, y mae plant yng Ngogledd Iwerddon yn eu sefyll i gael lle mewn ysgolion gramadeg. Mae hyn wedi cadarnhau'r pwysau annerbyniol sy'n cael ei roi ar blant mor ifanc â 10 ac 11 i berfformio yn yr arholiadau hyn, ac wedi amlygu'r effeithiau negyddol o ganlyniad ar iechyd a llesiant plant. Arweiniodd pryder ynghylch effaith y coronafeirws ar eu disgyblion at rai penaethiaid ysgol gynradd yn galw am atal profion trosglwyddo yn 2020, gan ddatgan, "*Mae'r cyfnod digyngsail hwn o ynysu ac addysgu gartref yn cael effaith anhysbys ar bob disgybl, a bydd hynny'n parhau*"¹⁵⁰. Rhannodd adroddiad gan Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon) "*...mae plant o dan bwysau cynyddol i gyflawni graddau uchel yn llawer iau, a chredir bod hynny'n achosi llawer o bryder.*"

Ar ben hynny, mae'r prawf trosglwyddo yn achosi straen i blant ifanc, gan ddechrau o flwyddyn 5 yn y cynradd."¹⁵¹

Hamdden a diwylliant

Teimlai rhai pobl ifanc ag anableddau fod eu hawl i chwarae a hamdden wedi dioddef ergyd fawr yn ystod y cyfyngiadau symud wrth i blant a phobl ifanc fethu â gweld eu ffrindiau oherwydd ofn cael eu heintio. Maen nhw'n pryderu bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n unig oherwydd bod ganddyn nhw neb i siarad â nhw.¹⁵²

Ac, o ran y diffyg gweithgareddau oedd ar gael yn ystod y cyfnod clo, dywedodd un person ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid wrthyn ni:

“Roeddwn i ar gwrs chwaraeon, felly roeddwn i yn y gampfa ryw 6 awr y dydd, 6 diwrnod yr wythnos... Rhoi rhyddid i ti yn dy ben, lle i gael stwff allan o dy ben, mewn gwirionedd. Nawr rydyn ni'n methu mynd oherwydd trawsheintio a phethau felna. Roeddwn i'n arfer codi'n gynnar yn y bore, achos bod gen i rwtin, ond nawr mae popeth wedi newid. [Rydw i'n] eistedd ar fy ngwely yn gwyllo'r teledu y rhan fwyaf o'r dydd nawr. Mae rhai pobl yn mwynhau hynny, ond dydw i ddim wir, rydw i'n teimlo mod i wedi gwastraffu'r diwrnod.

- Person ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, Lloegr

”

Fodd bynnag, soniodd rhai pobl ifanc fod y cyfnod yma wedi bod yn brofiad cadarnhaol i raddau. Mae llawer wedi cael pleser wrth dreulio mwy o amser gyda'r teulu, yn dysgu sgiliau newydd ac yn mwynhau'r awyr agored mewn gerddi ac wrth wneud ymarfer corff bob dydd.¹⁵³

“Nawr mae gen i berthynas agosach gyda fy rhieni. Mae'r gymuned wir wedi dod at ei gilydd. Mae hyn wedi gwneud i fi werthfawrogi'r pethau bach.

- Benyw ifanc, Cymru

”

¹⁵⁰ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-52871800>

¹⁵¹ What wellbeing means?, NCB NI on behalf of The Department of Education and the Public Health Agency, NI

¹⁵² MENCAP Gogledd Iwerddon

¹⁵³ Arolwg Coronafeirws a Ff, Comisiynydd Plant, Cymru (2020)

Mesurau amddiffyn arbennig

Plant sy'n ceisio lloches, yn ffoaduriaid ac yn ymfudo

Mae plant a phobl ifanc sy'n newydd-ddyfodiaid, p'un a ydyn nhw'n blant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches, yn ffoaduriaid neu'n ymfudo, yn wynebu llawer o heriau wrth ymdrechu i gyflawni eu hawliau. Gall plant hefyd fod heb eu hebrwng neu 'wedi cael eu gwahanu'. Maen nhw'n destun ystod gymhleth o brosesau sy'n gofyn bod asiantaethau'r Deyrnas Unedig ac asiantaethau datganoledig yn gweithio'n effeithiol ar draws eu cylchoedd gorchwyl eu hunain, a bydd angen i blant a theuluoedd gael hyd i'w ffordd trwy'r system loches a mewnfudo, yn ogystal â cheisio mynediad at wasanaethau sylfaenol.

Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn wynebu ystod o rwystrau, er enghraifft, wrth gael mynediad i ofal iechyd priodol, safon byw ddigonol ac addysg effeithiol. Maen nhw'n profi tlodi ariannol, tlodi digidol a thlodi o ran cyfleoedd.¹⁵⁴

Mynegodd plant hefyd eu bod nhw ddim yn deall cost y cais am ddinasyddiaeth, gan ddweud bod ganddyn nhw hawl i wybod ble mae eu harian yn mynd. Roedd pryderon ar draws y gwledydd ynghylch straen cael dinasyddiaeth ac effaith hynny ar deuluoedd. Rhannodd pobl ifanc eu bod nhw'n methu fforddio cost dinasyddiaeth, oherwydd mai incwm bychan iawn sydd gan eu teuluoedd:

“*Mae'n costio £1000 am bob plentyn. All fy rhieni ddim fforddio talu, alla i ddim cael Lwfans Cynnal Addysg (EMA) na chymryd rhan mewn addysg 3^{ed} lefel.*”

- Ceisiwr lloches ifanc benyw, HAPANI

“*Rhaid [i mam] dalu am ddinasyddiaeth o hyd, a falle bydd yr holl bethau rydyn ni eisiau i'r Nadolig ddim yn digwydd.*”

- Benyw ifanc â chefnidir ymfudo, Lloegr

Roedd eraill yn pryderu am faint o amser roedd yn cymryd i brosesu ceisiadau:

“*Fe wnes i gais am loches yn 2014 ac rydw i wedi dal yn geisiwr lloches ers hynny, felly does gen i ddim yr un mynediad i addysg uwch.*¹⁵⁵”

- Ceisiwr lloches ifanc benyw, HAPANI

Mae llawer o oblygiadau i'r caledi ariannol o ran gweithgareddau hamdden, diwylliannol ac allgyrsiol. Mae bod heb ddinasyddiaeth hefyd yn effeithio ar y gallu i weithio, argaeledd y Lwfans Cynnal Addysg (EMA) a'r gallu i deithio.

¹⁵⁴ Trafodaeth gyda phobl ifanc o Horn of Africa People's Aid, Gogledd Iwerddon (HAPANI), 2020

¹⁵⁵ Ibid

Rhannodd un person ifanc:

“ *Rydw i'n teimlo'n anfforddiadwy [...] dydw i ddim yn teimlo mod i'n blentyn normal, achos rydw i mewn sefyllfa lle dydw i ddim yn gallu bod yn blentyn.*¹⁵⁶ ”

- Benyw ifanc â chefnidir ymfudo, Lloegr

Roedd tai hefyd yn bryder i lawer o blant. Fe ddwedson nhw wrthyn ni am effaith amodau is na safonol – lleoedd cyfyng, byw gyda llygod mawr, a pheidio â theimlo'n ddiogel mewn ardal – a gorfod symud yn aml, ar rannau eraill o'u bywydau fel derbyn addysg.

“ *Bob tro rydych chi'n dal i symud, mae'n anoddach i chi oherwydd falle mewn un lle roeddech chi'n byw'n agos at yr ysgol, ond yna os ydych chi'n symud yn bell, ac mae'r ysgol yn dal yn yr un man, mae'n mynd i fod yn daith hir.*¹⁵⁷ ”

- Benyw ifanc â chefnidir ymfudo, Lloegr

Dywedodd plant wrthyn ni beth maen nhw'n meddwl yw canfyddiad cyffredinol y gymdeithas ehangach o geiswyr lloches, ffoaduriaid neu ymfudwyr:

“ *Maen nhw'n disgwyl bod gennych chi rwystr ieithyddol neu eich bod chi heb gael addysg. Maen nhw fel arfer yn eich tanbrizio.* ”

- Ceisiwr lloches ifanc benyw, HAPANI

“ *Beth bynnag wnewch chi, byddwch chi wastod yn cael eich labelu'n rhywun tramor.* ”

- Ceisiwr lloches ifanc gwryw, HAPANI

Mynegodd un ferch yn ei harddegau gonsyrn bod ymfudwyr newydd yn ei hysgol sydd â rhwystrau ieithyddol ddim yn cael dewis pa bynciau TGAU i ymrestru ar eu cyfer:

“ *Maen nhw'n taflu nhw i mewn i bynciau TGAU, ond ddim yn siarad yn iawn â nhw am beth sydd ynddyn nhw. Maen nhw'n eu gorfodi i mewn i bynciau haws ac yna'n eu gadael ar eu pennau eu hunain.* ”

- Person ifanc o'r Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuencid, Cymru

¹⁵⁶ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/03/cco-childhood-in-2020.pdf>

¹⁵⁷ Ibid

Dyw teuluoedd sy'n methu troi at Gyllid Cyhoeddus (NRPF) ddim yn cael hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth, oherwydd eu statws mewnfudo. Mae llawer o blant sy'n perthyn i deuluoedd ar NRPF, er enghraifft, yn methu hawlio prydau ysgol am ddim. Rhannodd un plentyn:¹⁵⁸

“ Weithiau rwy'n teimlo embaras oherwydd mod i'n methu cael rhai pethau. Dydw i ddim yn cael brecwast y rhan fwyaf o ddyddiau, ac roedd fy athro'n pryderu mod i ddim yn bwyta. ”

- Benyw ifanc, Lloegr

Cyfiawnder leuenctid

Y Deyrnas Unedig sydd â'r oedrannau cyfrifoldeb troseddol isaf, 8 yn yr Alban (gyda deddfwriaeth wedi'i phasio ond heb ddod i rym eto i'w godi i 12), a 10 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn cynghori na ddylai'r oed ifancaf sy'n rhyngwladol dderbyniol o safbwynt cyfrifoldeb troseddol fod yn is nag 14.

Mae plant a phobl ifanc yn y system Cyfiawnder leuenctid yn grŵp arbennig o agored i niwed, y mae eu barn a'u hanghenion yn aml yn cael eu diystyru. Er ein bod wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant sy'n cyflawni dedfryd o garchar yng Nghymru¹⁵⁹ a Lloegr, mae pryderon wedi cael eu codi ynghylch y diffyg cyfleusterau i droseddwy'r ifanc a diogelwch plant a gedwir mewn sefydliadau gwarchodol.

Ac eto mae llawer o blant yn dal i gael eu hamddifadu o'u rhyddid bob blwyddyn, a rhai ohonynt yn wynebu ataliaeth sy'n achosi poen, neu'n cael eu hynysu o'u cyfoedion am gyfnodau hir. Mae defnyddio stopio a chwilio a chwilio plant a phobl ifanc yn noeth yn dal i dorri hawliau plant, gydag effaith negyddol ar eu perthynas â'r heddlu a'r awdurdodau.

Mae plant sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol bron i gyd yn dweud wrthyn ni nad carchar yw'r ateb a'i fod yn gallu gwneud pethau'n waeth yn achos y rhan fwyaf o bobl ifanc.

*“ Nid carchar yw'r lle i anfon plant, dyw e ddim yn helpu, anfonwch nhw i ff**in gwersyll neu ryw beth ac maen nhw'n gorfod dysgu coginio a dysgu sut i gael swydd a stwff felna, ond peidiwch anfon plentyn i'r carchar, y cyfan bydd hynny'n gwneud, bydd e'n mynd i'r carchar ac yn cwrdd â gwahanol gysylltiadau ar draws y wlad yno, byddwch chi'n ymladd bob un dydd, bydd e jyst yn gwneud plant yn waeth. ”*

- Gwryw ifanc yn y system cyfiawnder leuenctid, Lloegr

¹⁵⁸ <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/2020/02/21/families-living-with-no-recourse-to-public-funds/>

¹⁵⁹ [Cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, 2019-2022](#), Comisiynydd Plant Cymru

Mae yna rai datblygiadau cadarnhaol fel bod gan garcharau baneli ieuenctid sy'n ceisio ystyried barn pobl ifanc. Rhannodd pobl ifanc sylwadau cadarnhaol hefyd am waith ailsefydlu trwy'r Timau Troseddau Ieuenctid:

“Yr unig reswm pam dwi yma yw i atal rhywbeth rhag digwydd eto, felly mae hynny'n dda.

- Gwryw ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, Lloegr

”

Mae'r bobl ifanc hefyd yn credu dylai'r heddlu ymwneud yn fwy ag ymgysylltiad cymunedol, a byddai gwneud hynny'n golygu bod pobl ifanc yn newid eu barn am yr heddlu. Ond teimlai plant a phobl ifanc nad oes ots gan yr heddlu amdanyn nhw, eu bod nhw'n credu stereoteipiau negyddol, neu eu bod nhw'n eu trin fel mai nhw yw'r problem:

“Os ydych chi allan yn y dref yn eich arddegau maen nhw [yr heddlu] yn disgwyl i chi achosi rhyw fath o drwbwl.

- Gwryw ifanc, Lloegr

”

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd mwy o bobl ifanc yn anghytuno â'r gosodiad – “Mae gennym ni gymuned ddiogel lle rydyn ni'n parchu'r gyfraith, a'n gilydd” – nag oedd yn cytuno”.¹⁶⁰

Dywedodd pobl ifanc hefyd eu bod nhw'n ofni'r gurfa gosb bydden nhw'n ei chael gan grwpiau parafilwrol petaen nhw'n ffonio'r heddlu, ac y byddai'n well ganddyn nhw droi at y grwpiau parafilwrol am help na'r heddlu. Pan ofynnwyd beth allai newid i ddatrys hynny, doedden nhw ddim yn siŵr bod ateb ar gael.¹⁶¹

“Ie, achos pan awn ni o fan hyn, mae'r grwpiau parafilwrol yn gwybod ein cyfeiriadau.

- Gwryw ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

”

“Fydd dim byd yn newid tra bod y grwpiau parafilwrol o gwmpas.

- Gwryw ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

”

Soniodd un person ifanc oedd yn ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid am yr angen i ddarparu cefnogaeth ychwanegol er mwyn i rai pobl ifanc fedru gwneud dewisiadau cadarnhaol:

“Weithiau mae angen i ni drin pobl yn wahanol i wneud pethau'n deg. Mae angen mwy ar rai pobl nag eraill. Rwy'n cytuno dylai rhai pobl gael eu trin yn wahanol mewn ffordd bositif, ond nid pan fydd eu trin nhw'n wahanol yn effeithio'n negyddol arnyn nhw.

- Person ifanc, Shankill Alternatives, Gogledd Iwerddon

”

¹⁶⁰ [Our Young People: Perceptions of the Outcomes Framework, 2019 Young Persons' Behaviour & Attitudes Survey.](#)

¹⁶¹ [Include Youth engagement with young people on the Local Policing Review, November](#)

Pobl ifanc mewn Gofal

Rhannodd llawer o'r bobl ifanc mewn gofal eu teimladau bod y prosesau a'r bobl oedd yn rhan o'r system gyfiawnder yn siarad atyn nhw yn hytrach na gwrandao arnyn nhw mewn gwirionedd, ac roedd hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o fod wedi cael eu cyhuddo a'u troseddoli'n annheg. Roedden nhw'n teimlo diffyg empathi a dealltwriaeth yng nghyswllt eu sefyllfaoedd a bod gan bobl eraill ddisgwyliadau isel yn eu cylch oherwydd eu profiad o ofal.¹⁶²

Esboniodd pobl ifanc mewn gofal sut mae eu hymwneud â'r heddlu a'r awdurdodau mor wahanol i bobl ifanc eraill sydd ddim mewn gofal, a'u bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu trin yn wahanol i blant eraill oherwydd eu cefndir mewn gofal. Maen nhw'n synhwyro bod yr heddlu yn eu trin â drwgdybiaeth a'u bod yn aml yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u holi. Mae'r farn bod plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o fynd i'r system gyfiawnder na rhai sydd ddim mewn gofal yn eithriadol o gyffredin.¹⁶³

“ Fe ges i 25 euogfarn mewn 2 fis mewn cartref gofal... dywedodd fy nghyfreithiwr eu bod nhw'n rhy barod i godi'r ffôn a galw'r heddlu. Ces i fy mwcio am daflu cwpan at y wal, fe ffonion nhw'r heddlu, ac fe ges i fy nghyhuddo o ddifrod troseddol. ”

- Person ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

“ Ches i rioed euogfarnau nes i mi fynd i ofal... fe ges i 66 euogfarn mewn 2 flynedd... swm i ddim wedi bod mewn fan hyn oni bai mod i mewn gofal. Hyd yn oed os bydden ni'n mynd mewn i swyddfa'r staff (yn y cartref gofal) i'w weindio nhw lan, bydden nhw'n bygwth ffonio'r heddlu. ”

- Person ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

“ Dydyn nhw ddim hyd yn oed yn rhoi cyfle i chi ddod adre cyn cysylltu â'r heddlu, ac yna mae'r heddlu'n eich trin chi fel person coll. ”

- Person ifanc, Include Youth, Gogledd Iwerddon

¹⁶² [Evidence Framework: The Independent Care Review, 2020](#)

¹⁶³ [Response to Draft Northern Ireland Policing Plan Consultation 2020-2025, Include Youth \(2020\)](#)

Diweddariadau Covid

Dywedodd plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuencid ar hyn o bryd neu sydd â phrofiad blaenorol o'r system cyfiawnder ieuencid mai'r problemau mwyaf oedd yn effeithio arnyn nhw yn ystod COVID-19 oedd yr ynysu a'r diffyg cyswllt ag eraill – yn deulu, ffrindiau a gwasanaethau – trwy ymweliadau, cyswllt wyneb yn wyneb a chyswllt ac anwyldeb corfforol cadarnhaol. Fe ddisgrifion nhw'r cyfnod clo fel profiad negyddol, a defnyddio geiriau fel caled, anodd, heriol, ofnadwy, garw, straenus, rhwystredig ac yn eich gwneud chi'n isel.¹⁶⁴

“ Mae'r cyfnod clo wedi bod yn ofnadwy ac yn rhyfedd. Mae peidio â mynd o gwmpas yn teimlo'n wallgo, a phan fyddwch chi'n meddwl bod rhywbeth wedi effeithio ar y byd cyfan mae'n teimlo fel breuddwyd fawr. ”

- Person ifanc, yr Alban

Yn ystod COVID, symudodd Gwrandawiadau Plant¹⁶⁵ yn yr Alban i gael eu cynnal yn rhithwir os nad oedden nhw wedi'u hatal. Amlygodd plant a phobl ifanc oedd yn ymwneud â'r system wrandawiadau yr angen am roi sylw i unrhyw eithrio digidol roedd plant a phobl ifanc yn ei brofi.

“ Dylech chi ddarparu dyfeisiau os oes ar blant, pobl ifanc a theuluoedd eu hangen i gymryd rhan. ”

- Person ifanc, yr Alban

Fe siaradon nhw am beth hoffon nhw weld pan fyddai'r gwrandawiadau'n troi'n gyfarfodydd wyneb yn wyneb eto. Teimlai nifer o bobl ifanc fod gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn cynnig mwy o gyfleoedd i gyflwyno'u barn, ond y gallai gorfod gwisgo masg fod yn rhwystr.¹⁶⁶

“ Gallai masgiau amddiffynnol fod yn frawychus. Maen nhw'n cuddio beth sydd ar wyneb person, sy'n rhan bwysig o fedru darllen beth mae person yn meddwl. ”

- Person ifanc, yr Alban

¹⁶⁴ <https://cycj.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/COVID-19-and-justice-report-final.pdf>

¹⁶⁵ Yn yr Alban, mae Gwrandawiad Plant yn gyfarfod cyfreithiol ar gyfer pobl ifanc sydd angen help, cefnogaeth neu amddiffyniad. Gellir gofyn i bobl ifanc fynychu Gwrandawiad Plant os oes pryderon ynghylch eu diogelwch neu eu lles.

¹⁶⁶ https://www.ohov.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/220620_Return-to-face-to-face-Hearings-Consultation-Report.pdf

Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod clo, mae plant sydd dan warchodaeth wedi profi amserlen eithriadol gyfyngedig, heb fawr ddim mynediad at addysg, amser yn yr awyr agored, ymweliadau teulu nac amser y tu allan i'w celloedd.

“Mae'n galed, achos rydw i wedi arfer teimlo cariad tu fas, mae hyd yn oed jyst cwtsh yn braf... yn amlwg dydych chi ddim yn cael y teimlad yna mewn fan hyn, yn enwedig gan fod dim ymweliadau... dyna'r peth anodda rydw i wedi mynd drwyddo.

- Gwryw ifanc, Lloegr

”

Roedd plant yn gyffredinol yn deall bod angen rhai cyfyngiadau i gadw rheolaeth ar yr haint a chadw pobl yn ddiogel, ond fe ddwedson nhw wrthyn ni eu bod nhw wedi cael bod y cyfnod yn anodd.

“Rwy'n gwybod bod e'n hollol berthnasol achos mae'n gyfnod clo ac mae angen i ni gadw pobl yn ddiogel, ond ar yr un pryd mae ychydig fel... dwy ddim yn gwybod... rwy'n teimlo ychydig fel ci mewn caets i fod yn deg.

- Person ifanc, Lloegr

”

Oherwydd yr amserlenni cyfyngedig iawn, treuliodd plant amser hir ar eu pennau eu hunain yn eu celloedd, sy'n gallu cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

“...pan does gennych chi ddim byd i'w wneud felly mae gennych chi lawer mwy o amser i feddwl ac yna gallwch chi ddechrau meddwl am bethau drwg, a dyna sut mae'n gwaethygu. Ac os oes gennych chi ddim byd i'w wneud rydych chi jyst yn gwyllo'r teledu ac yn cysgu drwy'r dydd, mae'n strywa chi.

- Person ifanc, Lloegr

”

Wrth wneud sylwadau ar brofiadau yn ystod pandemig Covid-19, rhannodd un person ifanc¹⁶⁷ o deulu oedd yn ceisio lloches:

“Dwy ddim yn hapus achos wi'n methu gweld fy ffrindiau ragor ac roedd mam yn methu cael tabled newydd i fi ers i fy un i gael ei dorri, ac allai hi ddim prynu tabled newydd i fi achos ceiswyr lloches ydyn ni, ac rydyn ni'n byw ar £5 y dydd yn unig, ond rwy'n rhannu gyda'm brawd bach, sydd ddim yn hwyl o gwbl.

- Person ifanc sy'n ceisio lloches, Cymru

”

¹⁶⁷ Ymateb i [arolwg Coronafeirws a Fi](#), Comisiynydd Plant Cymru (2020)

Brexit

Mae goblygiadau llawn pleidlais Brexit ar 24 Mehefin 2016 yn dal yn anhysbys, ond mae'n eglur mai plant a phobl ifanc ein dyddiau ni fydd y genhedlaeth gyntaf i fyw gydag effaith lawn y ffaith bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Bydd Brexit yn cael mwy o effaith ar blant a phobl ifanc nag ar unrhyw grŵp arall, gan mai nhw fydd yn gorfod byw hiraf gyda'r goblygiadau. Ni chafodd plant a phobl ifanc o dan 18 oed gyfle i bleidleisio na rhoi barn ar y penderfyniad hollbwysig hwn. Teimlai pobl ifanc na chafodd yr effaith ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ei hystyried yn llawn.¹⁶⁸

I lawer o bobl ifanc, roedd y llunwyr penderfyniadau i weld yn bell iawn o ddeall realiti eu bywydau a sut gallai penderfyniadau ynghylch yr Ardal Deithio Gyffredin, trafodaethau am ffiniau caled-meddal, neu golli rhaglenni ariannu'r UE gael effaith wirioneddol iawn ar eu bywydau yn awr ac ymhell i'r dyfodol.

Roedd dau draean (69%) o bobl ifanc yn meddwl byddai Brexit yn cael effaith fawr ar eu bywydau. Roedd 93% yn meddwl bod y penderfyniad i adael yr UE yn 'benderfyniad gwael'.

“Mae'r UE yn darian warchodol i grwpiau lleiafrifol. Ar ôl Brexit gallen ni weld colli hawliau a chaniatáu camwahaniaethu.

- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

”

Cynhyrchodd Senedd Ieuencid yr Alban Faniffesto Brexit yn galw ar Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi llais llawer mwy swyddogol ac ystyrlon a lle cynrychioliadol yn nhrafodaethau Brexit ar hyd y broses.¹⁶⁹ Canfu'r Panel Plant a Phobl Ifanc ar Ewrop, a arweiniwyd gan Together a Children in Scotland, fod gan blant a phobl ifanc amrywiaeth eang o farn ynghylch effaith gadael yr UE, a bod angen i'w safbwyntiau gael eu clywed ym mhroses ymadael y Deyrnas Unedig o'r UE.¹⁷⁰ Mewn arolwg barn ar Instagram, roedd 90% o bobl ifanc yng Nghymru yn meddwl byddai Brexit yn cael effaith negyddol ar eu hawliau.¹⁷¹

Mae pobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hunain mewn sefyllfa unigryw yn yr ystyr bod eu tir yn ffinio â'r Undeb Ewropeaidd trwy Weriniaeth Iwerddon. Mae croesi'r ffin am resymau teuluol, cymdeithasol, chwaraeon, diwylliannol ac economaidd wedi bod yn brofiad dirwysr a llyfn hyd yma.

“Os oes gennych chi deulu/berthnasau ochr arall y ffin, byddai'n anodd iawn mynd yn aml tase rhaid i chi gael eich stopio a'ch gwirio wrth bob ffin.

- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

”

¹⁶⁸ <https://www.niccy.org/media/2991/brexit-full-report-nov-17.pdf>

¹⁶⁹ [Rights Outright: SYP's Brexit Manifesto](#)

¹⁷⁰ [Children and Young People's Panel on Europe](#)

¹⁷¹ <https://www.childreninwales.org.uk/resources/brexit-childrens-rights/#>

“ *Effaith ar gludo nwyddau – lorïau ac ati ar draws ffiniau – effaith ar swyddi – incwm – safon byw.* ”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

Mae gan y bobl ifanc hyn lawer o bryderon ynghylch Brexit, yn amrywio o fynediad i ysgolion, i hawliau a chydaddoldebau a'r economi. Mae rhai hefyd yn pryderu am y posibilrwydd o wrthdaro yn sgîl ffin galed bosibl. Mae pobl ifanc (o'r ddwy ochr i'r ffin yn Iwerddon) yn pryderu'n fawr y gallai Brexit gyfyngu ar eu cyfleoedd yn y dyfodol o ran gwaith, teithio ac astudio.¹⁷²

“ *Ofni gallai rhywbeth fel y 'Troubles' ddigwydd eto os bydd ffin galed.* ”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

“ *Wrth ddysgu Iaith Ewropeaidd fydd sesiynau cyfnewid tramor yn mynd yn anoddach ac yn ddrutach?* ”
- Person ifanc, Gogledd Iwerddon

¹⁷² [It's Our Brexit Too: Children's Rights, Children's Voices, 2017; NICCY & Ombudsman for Children's Office, Ireland](#)

Atodiad 1: Trosolwg Ymgysylltu

Lloegr

Mae cylch adrodd CCUHP eleni yn cynnwys barn a lleisiau plant a gasglwyd gennym yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rydyn ni wedi defnyddio ein gwaith ar sefyllfaoedd bregus; gangiau; [bywydau digidol plant](#); [chwarae gêm](#); [addysgu gartref](#); [iechyd meddwl](#); [y system ofal](#) gan gynnwys [sefydlogrwydd](#); [plant mewn lleoliadau diogel](#); SEND, gan gynnwys mynediad at [therapi iaith a lleferydd](#); [tai](#); [mynediad at chwarae](#); [plant yn y Gogledd](#); cynrychioli lleisiau plant ar y materion hyn sy'n effeithio ar eu bywydau beunyddiol. Hefyd mae barn a lleisiau plant sy'n estyn allan i'n gwasanaeth [Help at Hand](#), llinell gymorth sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i blant mewn gofal, sy'n gadael gofal neu sy'n byw oddi cartref, a'n platfform ar-lein '[In My Opinion](#)' (IMO), lle ar gyfer sgysiaid agored a gonest gydag ymadawyr gofal ynghylch materion sy'n bwysig iddyn nhw, wedi cael eu cynnwys.

Yn ystod ein hymgyngoriad diweddaraf ar Gynllun Busnes 2019/2020, '[Childhood in 2020](#)', buon ni'n siarad â 137 o blant a phobl ifanc wyneb yn wyneb, gan gynnwys plant â chefnidir ymfudo, plant yn y system cyfiawnder ieuenctid a phlant sydd â SEND; ac rydyn ni wedi cynnal arolwg gyda bron 2,000 o blant. Rhoddodd yr ymgynghoriad helaeth hwn gipolwg i ni ar y materion sydd ar feddyliau plant nawr. Yn ystod y pandemig cyfredol, rydyn ni wedi cynnal arolwg o bron 4,000 o blant yn union cyn y cyfnod clo ac yn union wedyn i ddysgu ganddyn nhw beth sy'n [gwneud iddyn nhw deimlo dan straen](#). Mae canfyddiadau'r arolwg hwn wedi'u cynnwys hefyd; yn ogystal â lleisiau plant rydyn ni wedi siarad â nhw'n fwyaf diweddar, er enghraifft ynghylch eu '[profiadau cyfnod clo](#)'; eu profiadau yn y [ddalfa](#) yn ystod y pandemig; a [phrentisiaethau](#).

Gogledd Iwerddon

I sicrhau ein bod ni'n derbyn ystod eang o safbwyntiau, yn enwedig gan y rhai mwyaf agored i niwed, bu Staff Cyfranogiad yng Ngogledd Iwerddon yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc neu bu staff sefydliadau'n hwyluso'r ymgysylltu hwnnw ar ein rhan.

Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc mewn gofal ([Voice of Young People in Care, NI](#)); ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc ([Horn of Africa People's Aid Northern Ireland](#)); plant a phobl ifanc roedd Cam-drin Domestig wedi effeithio arnynt ([Woman's Aid, NI](#)); gofalywyr ifanc ([Huntington's Association in NI](#)); pobl ifanc o gymunedau difreintiedig, pobl ifanc sydd wedi cyflawni neu sydd mewn perygl o gyflawni trosedd ([Include Youth](#)) a phlant a phobl ifanc sy'n ymwneud â rhaglenni cyfiawnder adferol ([Northern Ireland Alternatives](#)). Hefyd dosbarthwyd arolwg ar gyfer y rhai oedd yn barod i gyfranogi ond yn methu dod i weithdy.

Ar ben hynny, roedd ymgysylltu cyfredol (cyn-Covid) yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn cefnogi'r adborth ar gyfer yr adroddiad hwn. Roedd ymgynghoriad NICCY ar Gynllun Corfforaethol 2020-23 yn cynnwys ymgysylltu â mwy na 1500 o blant a phobl ifanc yn [Nathliadau 30 mlynedd CCUHP a'r Uwchgynhadledd Plant a Phobl Ifanc](#). Defnyddiodd yr adroddiad [Statement of Children's Rights in Northern Ireland](#) (2018) ymgysylltiad parhaus â phlant a phobl ifanc trwy ymweliadau'r Comisiynydd, ymchwil a mentrau cynyddu ymwybyddiaeth megis digwyddiadau i'r cyhoedd yn gyffredinol i nodi materion allweddol. Bu [gweminarau Holi ac Ateb ar-lein](#) a gynhaliwyd gan y Comisiynydd yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn amgylchedd digidol, ac ymgysylltwyd â mwy na 3000 o bobl ifanc wrth drafod iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Ar hyd y cyfnod ers cylch Adrodd diwethaf y CU, mae ei [Banel Ieuenctid](#) ei hun wedi cynghori NICCY, gydag aelodaeth gyfartalog o 80 o bobl ifanc.

Yr Alban

Daw barn a safbwyntiau'r plant a'r bobl ifanc yn yr adroddiad hwn o ystod eang o adroddiadau, ymchwil, arolygon ac ymgynghoriadau. Cynhaliwyd rhai o'r rhain fel rhan o waith y Comisiynydd Plant lle cafodd plant a phobl ifanc â phrofiad bywyd gyfle i fynegi barn ar faterion oedd yn effeithio ar eu hawliau. Adroddiadau fel [No Safe Place](#), ymchwiliad i ataliaeth ac ynysu yn ysgolion yr Alban a [Coping is difficult but I feel proud](#), prosiect ymchwil ar lesiant a iechyd meddwl gofawr ifanc. Roedd [Power Up Power Down](#) yn brosiect ar y cyd â Scottish Women's Aid lle gwrandawyd ar bobl ifanc oedd yn byw gyda cham-drin domestig. Hefyd cynhwyswyd lleisiau ymgynghorwyr ifanc i'r Comisiynydd a'i dîm, gan gynnwys Grŵp Gweithredu Amddiffynwyr Hawliau Dynol, a greodd yr Adroddiad [Promote, Protect, Defend](#).

Hwyluswyd eraill gan rwydwaith mawr, gweithredol yr Alban o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu cyfer. Mae barn plant iau yn cael ei chasglu gan waith y Senedd Plant, barn pobl ifanc gan y sector gwaith ieuenctid a Senedd Ieuenctid yr Alban. Rydyn ni hefyd wedi cynnwys grwpiau sy'n cefnogi pobl ifanc BAME, pobl ifanc LHDTRhC+, plant sydd mewn gwrthdrawiad â'r gyfraith, plant carcharorion a phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn tldi.

Oherwydd Covid-19 a'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith ym mis Mawrth 2020, doedd dim modd ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wyneb yn wyneb. Daliodd ein grŵp ymgynghorol presennol ati i gwrdd ar-lein a chyfrannu eu barn ar y cyfnod clo, ar ganslo'r arholiadau, ar ymgorffori CCUHP i gyfraith gwlad, ar Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant, a llawer mwy. Fe wnaethon ni ofyn hefyd i sefydliadau eraill gynnal gweithdai i ni. Roedd y rhain yn cynnwys plant a phobl ifanc o'r gymuned sipsiwn/teithwyr, pobl ifanc B/byddar, pobl ifanc anabl a phlant a phobl ifanc o deuluoedd y lluoedd arfog.

Cymru

Wrth ddod â barn plant a phobl ifanc ynghyd i fwydo i'r adroddiad hwn, rydyn ni wedi defnyddio ymgynghoriadau'r gorffennol, gan gynnwys [Beth Nawr](#) (2019), a gasglodd farn 10,000 o blant a phobl ifanc, gwaith prosiect ac Adolygiad Tystiolaeth a gomisiynwyd: [Hawliau Dynol Plant yng Nghymru](#) (2018). Mae gwaith blaenorol wedi amlygu llawer o agweddau cadarnhaol ar fywydau pobl ifanc yng Nghymru, ond hefyd wedi dangos i ni bod y rhai â nodweddion cydraddoldeb yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau i gael eu hawliau. Yn 2020 fe wnaethon ni gasglu barn ein llysgenhadon myfyrwyr (Ionawr 2020) a'n grŵp ymgynghorol (Chwefror 2020) mewn digwyddiadau. Ym mis Mai 2020, fe fuon ni hefyd yn casglu barn a phrofiadau yn ystod y cyfnod clo gan fwy na 23,500 o blant a phobl ifanc, trwy ein harolygon [Coronafeirws a Fi](#).

Yn ogystal â'r ymgynghoriadau diweddar hyn, ac i sicrhau ein bod ni'n clywed amrywiaeth eang o safbwyntiau, yn ystod Gorffennaf-Awst 2020 fe gynhalion ni weithdai ar-lein gyda grwpiau o bobl ifanc oedd â 'diddordeb arbennig' (rhai sy'n aml yn wynebu mwy o rwystrau i sicrhau eu hawliau), yn gofyn cwestiynau allweddol er mwyn llywio'r adroddiad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys plant a phobl ifanc oedd yn byw mewn uned breswyl ddiogel; yn byw mewn uned iechyd meddwl i gleifion mewnol; o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT); yn ymwneud â'r Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig EYST (rhaglen Ymgysylltu BAME Cymru Gyfan) a Chyngor Hil Cymru (CHC); rhai roedd y Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw; rhai oedd yn ymwneud â Mixtup (clwb ieuenctid gallu cymysg); pobl ifanc â phrofiad o ofal (Young Voices Speak Out, Sir y Fflint), rhai oedd yn nodi eu bod yn LHDTc+ trwy Youth Cymru; ein grwpiau Llysgenhadon Cymunedol. Darparwyd arolwg ar gyfer y grwpiau hyn hefyd, ar gyfer y rhai oedd yn methu mynychu gweithdy.

Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban

Trydar: @cypcs

Ewch i: cypcs.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru

Trydar: @childcomwales

Ewch i: childcomwales.org.uk

Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon

Trydar: @nichildcom

Ewch i: niccy.org

Comisiynydd Plant Lloegr

Trydar: @childrenscomm

Ewch i: childrenscommissioner.gov.uk